# Cynnwys


Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 8
5 - Adroddiad Terfynol Drafft Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig 13
    Cynnwys 14
    Rhagair 15
    Crynodeb 16
        Prif Ganfyddiadau 16
        Prif Argymhellion 18
    Adroddiad Llawn 20
        Nod yr Ymchwiliad 20
        Y Dystiolaeth a ystyriwyd 20
        Canfyddiadau 22
    Argymhellion 32
    Cydnabyddiaeth a Darllen Pellach 36
    Atodiad 1 - Ymateb Gwynedd i'r Cynllun Datblygu Gwledig 38
6 - Cydweithio - Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus 45
    Atodiad 1 47
7 - Y Rhaglen Arbedion 53
8 - Adroddiad Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy 56
    Atodiad 1 69
    Atodiad 2a 70
    Atodiad 2b 71
    Atodiad 2c 72
    Atodiad 3 73
    Atodiad 4 81

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00AM, DYDD IAU, 27 MAWRTH, 2014**
**10.00AM, THURSDAY, 27 MARCH, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 20/03/14)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors
Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gareth Thomas

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors
Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr / Councillors
Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)

Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Aelodau eraill a wahoddir / Other invited members

Y Cynghorydd / Councillor Dyfed Edwards – eitemau / items 5 a/and 6
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – eitem / item 7
Y Cynghorydd / Councillor John Wynn Jones – eitem / item 8

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2014 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw’r amseroedd a nodir isod*

**5. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU AGENDA WLEDIG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyried adroddiad y Grŵp Ymchwiliad Craffu (copi ynghlwm).

*10.05am – 11.00am*

**6. CYDWEITHIO / DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella (copi ynghlwm).

*11.00am – 11.45am*

**7. Y RHAGLEN ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (copi ynghlwm).

*11.45am – 12.30pm*

**8. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wyn Jones**

Ystyried adroddiad y Grŵp Ymchwiliad Craffu (copi ynghlwm).

*12.30pm – 1.00pm*

# AGENDA

**1. APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

**3. URGENT BUSINESS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**4. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 16 January, 2014 be signed as a true record (copy attached).

*Please note that the times noted below are estimates only*

**5. RURAL AGENDA SCRUTINY INVESTIGATION REPORT**
**Cabinet Member: Councillor Dyfed Edwards**

To consider the report of the Scrutiny Investigation Group (copy attached).

*10.05am – 11.00am*

**6. COLLABORATION / THE FUTURE OF PUBLIC SERVICES**
**Cabinet Member: Councillor Dyfed Edwards**

To consider the report of the Head of Strategic and Improvement (copy attached).

*11.00am – 11.45am*

**7. SAVINGS PROGRAMME**
**Cabinet Member: Councillor Peredur Jenkins**

To consider the report of the Cabinet Member Resources (copy attached).

*11.45am – 12.30pm*

**8. SUSTAINABLE PROCUREMENT SCRUTINY INVESTIGATION REPORT**
**Cabinet Member: Councillor John Wyn Jones**

To consider the report of the Scrutiny Investigation Group (copy attached).

*12.30pm – 1.00pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 16.01.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles W.Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands ac Eirwyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**

Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)
Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**

Dyfed Edwards (Arweinydd)
Trystan Pritchard (Uwch Reolwr Partneriaethau)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Gareth Thomas.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2013 fel rhai cywir.

**3. STRATEGAETH ARBEDION**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn cyfarch cyfres o faterion a godwyd gan y pwyllgor hwn mewn perthynas â goblygiadau'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf i'r Strategaeth Arbedion.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

(1) Ymatebodd yr Aelod Cabinet Adnoddau yn briodol i gyfres o gwestiynau yn ymwneud ag elfennau technegol o'r adroddiad, megis hygrededd y ffigur o £3.578m y cyfeirir ato ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad, y gwir berfformiad yn erbyn targed arbedion 2013/14 a'r rhagolygon ariannol.
(2) Nodwyd bod paragraff 3.8 o'r adroddiad yn cyfeirio at weithio ar gyfundrefn ar gyfer sefydlu beth yw blaenoriaethau'r Cyngor (er mwyn sefydlu lle bydd modd torri) a

holwyd pwy oedd yn trafod a beth sy'n cael ei drafod. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau nad oedd y math yma o drafodaethau wedi dechrau cymryd lle eto ond bod cyfundrefn yn cael ei sefydlu i drafod hynny. Pwysleisiodd hefyd y byddai unrhyw doriadau posib' yn cael eu trafod yn fanwl gyda'r holl aelodau a thrigolion Gwynedd.

(3) Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu gyda phob carfan o'r cyhoedd ynglŷn ag unrhyw doriadau. Nodwyd mai'r bobl fwyaf tlawd a bregus o fewn cymdeithas yw'r bobl lleiaf abl i roi eu barn drosodd a hwy hefyd sy'n mynd i ddioddef fwyaf o golli gwasanaethau'r Cyngor.

(4) Mynegwyd pryder gan yr aelod lleol bod y gwasanaeth cludiant i ysgol gynradd Llanrug wedi ei dorri'n ddirybudd ddiwedd y tymor diwethaf. Nid oedd y Cyngor wedi ymgynghori ag ef ynglŷn â'r mater ac 'roedd yr Aelod Cabinet Amgylchedd o'r farn na ddylai'r toriad fod wedi cymryd lle tan fis Medi nesaf. Awgrymodd y Cadeirydd wyntyllu'r diffygion yn nhrefn ymgynghori'r Cyngor ar ddiwedd y drafodaeth.

(5) Holwyd ai'r flaenoriaeth oedd amddiffyn swyddi o fewn y Cyngor ynteu amddiffyn y gwasanaethau. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau mai'r flaenoriaeth oedd darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd a bod rhaid i'r swyddi gydweddu â'r gwasanaethau hynny.

(6) Nodwyd bod y Cyngor yn wynebu sefyllfa o orfod adolygu ei Strategaeth Ariannol ac o ystyried toriadau arwyddocaol iawn sy'n golygu bod swyddi yn y fantol a gwasanaethau yn cael eu cyfaddawdu, ac 'roedd dull y Cyngor o ddelio gyda hyn yn ystyriaeth hynod bwysig. Byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r undebau petai swyddi'n cael eu dileu ac 'roedd yn rhaid ymgynghori gyda'r cyhoedd hefyd, gan gofio bod rhai pobl yn mynd i fod yn fwy ymylol yn hyn na'i gilydd. 'Roedd y grym i gyd yn nwylo'r prif swyddogion a'r Aelodau Cabinet ar hyn o bryd ac 'roedd yn rhaid iddynt ganfod dull o rymuso gweddill yr aelodau i fod yn rhan o'r drefn yma, gan hefyd ymestyn y drefn i gynnwys pob elfen o'r gwahanol anghenion sydd gan y trethdalwyr yng nghyd-destun y gwasanaethau. 'Roedd yn hanfodol bod y pwyllgor hwn yn cael cyfle i graffu pa fath o gynlluniau fydd yn cael eu datblygu yn ystod y misoedd nesaf ar gyfer tynnu'r pwyllgor hwn a gweddill yr aelodau etholedig i mewn, gan hefyd gwmpasu'r ystod eang o grwpiau a chyrff o fewn y sir mewn modd ystyrlon. Mewn ymateb, awgrymodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod y seminarau cychwynnol a drefnwyd ar gyfer yr aelodau yn dangos y ffordd. Mynegodd ei obaith hefyd y byddai'r Cyngor yn gynhwysfawr ym mhopeth y bydd yn ei wneud ynglŷn â'r drefn arbedion a thoriadau sy'n ei wynebu. Ychwanegodd y gallai fod yn anodd cael trwch y boblogaeth i gael y sgwrs yma, ond 'roedd gan y grwpiau sy'n cefnogi trigolion sydd angen cymorth a'r cynghorwyr eu hunain, fel y bobl sydd agosaf at drwch y boblogaeth, rôl bwysig yn cefnogi'r holl drefn o ymgynghori ar unrhyw arbedion.

(7) Awgrymwyd nad yw pobl yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn y Cyngor y dyddiau hyn gan nad yw'r wasg bellach yn anfon newyddiadurwyr i bwyllgorau'r Cyngor i gymryd nodiadau, ond yn hytrach yn dibynnu ar ddatganiadau i'r wasg, sy'n cyflwyno'r dadleuon o safbwynt y Cyngor yn unig.

(8) Awgrymwyd nad cyfarfodydd cyhoeddus a seminarau oedd y ffyrdd gorau o ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n anodd eu cyrraedd ar hyn o bryd. 'Roedd yn rhaid meddwl am ffyrdd creadigol o fynd allan at bobl, e.e. drwy fynd at grwpiau cymunedol, mynd i ysgolion, siarad gyda phobl ifanc a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

(9) Nodwyd bod rhaid gochel rhag defnyddio cyfathrebu gyda'r cyhoedd fel esgus i osgoi gwneud penderfyniad.

(10) Nodwyd bod perygl o wario llawer iawn o arian ar ymgysylltu a rhaid cofio bod pobl yn ethol cynghorwyr i gynrychioli eu barn.

(11) Awgrymwyd defnyddio cynghorau tref / cymuned i gasglu gwybodaeth.

(12) Nodwyd nad yw'n hawdd mesur effaith cyflawni arbedion, ond byddai, e.e. cwtogi gwasanaeth gweithiwr cymdeithasol / cymhorthydd dosbarth o 3 awr i awr yn awgrymu lleihad yn y gwasanaeth, sydd yn ei dro'n awgrymu effaith. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y byddai'n disgwyl bod y pwyso a'r mesur yma'n cael ei wneud wrth roi'r arbedion yn eu blaenau, er nad yw hynny'n fater rhwydd. Nododd yr aelod ymhellach fod rhaid canfod ffordd o fesur effaith toriadau ac awgrymodd y byddai derbyn mwy o gwynion gan yr aelodau yn arwydd bod gwasanaeth wedi dirywio. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol â'r sylw ynglŷn â'r effaith gan nodi fod y profiad a gafwyd o geisio ystyried a fu effaith wedi i arbediad gael ei wireddu yn hynod anodd ac yn codi cwestiynau ynglŷn â'r budd y gellir ei osod yn erbyn y gost o geisio gwneud hynny (gan fod yna nifer o ffactorau yn gallu dylanwadu ar berfformiad heblaw mewnbwn adnoddau). Nododd y byddai'n well sicrhau bod y goblygiadau yn glir o'r cychwyn a phe deuai cynllun gerbron, ac nad yw ei effaith yn glir, dylid ei yrru'n ôl i'r adran gan ofyn am eglurhad pellach.

(13) Awgrymodd aelod y gellid mesur rhai pethau penodol, megis glendid ac edrychiad y stryd, gan nodi ei bod yn derbyn mwy a mwy o gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth casglu biniau. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod cyfrifoldeb ar yr aelodau i dynnu sylw'r penaethiaid perthnasol at broblemau o'r fath.

**4. ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN INTEGREDIG SENGL GWYNEDD AC YNYS MÔN**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd yn amlinellu'r cynnydd tuag at sefydlu Cynllun Integredig Sengl i Wynedd ac Ynys Môn gan fod angen sicrwydd bod buddiannau pobl Gwynedd yn cael eu gwarchod.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau grynodeb o swyddogaeth yr uned.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y prif faterion a ganlyn:-

(1) Nodwyd bod y Cyngor wedi'i feirniadu'n ddiweddar gan y Cynulliad am fod yn rhy fewnblyg ynglŷn â phartneriaethau a bod adroddiad gan Fantell Gwynedd hefyd wedi bod yn ddeifiol ynglŷn â'r ffordd 'roedd y Cyngor yn ymdrin â phartneriaethau'r trydydd sector. 'Roedd y Cynllun Integredig Sengl yn sôn am lawer o bethau dymunol fel datblygu cymunedau cryf yng Ngwynedd a Môn a sicrhau gwasanaethau cynaliadwy, ond ble 'roedd y dystiolaeth o hynny? Nid oedd cyfeiriad yn yr adroddiad chwaith at bartneriaethau'r trydydd sector a nodwyd nad oedd rhai elusennau, megis Cynllun Ieuenctid Pwllheli, yn cael unrhyw fath o berthynas gyda'r Cyngor. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau, o ran y strwythur sy'n bodoli o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, bod yna gynrychiolaeth trydydd sector o'r lefel hynny i lawr ynghyd â chynrychiolaeth trydydd sector ar y grwpiau thematig. 'Roedd y prosiect Gwneud y Cysylltiadau hefyd yn darparu un swyddog cefnogol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y trydydd sector ymhob sir. Er ei fod yn rhannu rhwystredigaeth y trydydd sector ynglŷn â'r diffyg symud ymlaen a gweithredu ar yr agenda, 'roedd yn hyderus yn y cyswllt. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau at Gyngor ar Bopeth a Chartref Bontnewydd fel enghreifftiau o bartneriaethau trydydd sector sy'n derbyn cymorth ariannol neu gyffelyb gan y Cyngor, a nododd y gallai ddarparu rhestr lawn i'r aelod pe dymunai hynny. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y cysylltiad gyda'r trydydd sector yn digwydd ar lefel Gwynedd fel cyngor unigol hefyd.

(2) Nodwyd bod paragraff 1.3 o'r cynllun yn nodi bod y datblygiadau posib' o ran gorsaf niwclear newydd ym Môn yn '*gyffrous'*, ond y gellid dadlau bod y datblygiadau hyn yn '*arswydus'*. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd y gellid defnyddio gair

gwahanol, ond ‘roedd y datblygiad yn sicr o greu ‘cyffro’, boed hynny’n gyffro negyddol neu gadarnhaol.

(3) Awgrymwyd y byddai’r cynllun ar y cyd gyda Môn yn colli rhywfaint o’i werth petai’r Llywodraeth yn penderfynu uno Gwynedd a Môn gyda Chonwy.

(4) Nodwyd, er bod yr athroniaeth a’r gwerthoedd sydd yn yr adroddiad yn wych ar bapur, byddai’n anodd iawn gwireddu’r nifer helaeth o ddelfrydau sydd ynddo. ‘Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y wasgfa ac yn sôn am rymuso unigolion i fod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth gan roi cyfrifoldeb ar unigolion a grwpiau i gyflawni canlyniadau ar gyfer eu hunain. Gan gyfeirio at y gwaith sy’n cael ei wneud gan Gisda, pwysleisiwyd na ddylid defnyddio’r adroddiad fel esgus i gau hostel i’r digartref yn ystod y cyfnod hwn o doriadau heb fod wedi creu’r mecanwaith i ddileu digartrefedd yn y lle cyntaf. ‘Roedd yr un egwyddor yn wir yng nghyswllt gwasanaethau pwysig eraill hefyd, megis cartrefi i’r henoed / plant. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod yna densiynau amlwg rhwng parhau i gynnal y gyfundrefn a mynd gam neu ddau ymhellach ac ystyried beth sy’n mynd i ryddhau potensial unigolyn. Y nod bob amser oedd peidio creu dibyniaeth, rhyddhau potensial pobl a’u cynorthwyo i ddatblygu i fod yn aelodau cyflawn o gymdeithas. ‘Roedd angen llawer iawn o waith a buddsoddiad i wneud hynny. Nid oedd yn mynd i ddigwydd dros nos ac ‘roedd rhaid cynnal pobl yn y cyfamser.

(5) Awgrymwyd, er y byddai cau, e.e. canolfan hamdden, yn llawer llai eithafol na chau hostel i’r digartref, byddai’n debygol o achosi llawer mwy o dwrw, ac ‘roedd cyfrifoldeb ar gynghorwyr i sefyll i fyny dros y bobl sydd fwyaf angen gwasanaethau’r Cyngor, yn hytrach na’r rhai sydd fwyaf lleisiol. Cytunodd yr Arweinydd â’r sylw yma gan nodi fod gan y Cyngor rôl i fod yn gadarn ac yn eglur ac i geisio gwneud yr hyn sy’n iawn, ac nid o reidrwydd yr hyn sy’n boblogaidd, er mwyn creu gwell cymdeithas.

(6) Awgrymwyd nad oedd y Cyngor yn gwneud iawn â phobl Gwynedd drwy fynd i bartneriaeth leol gyda Môn. Cyfeiriwyd at Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru fel enghraifft o gydweithio aflwyddiannus a mynegwyd pryder bod yr elfen leol yn mynd i gael ei cholli drwy gydweithio ar draws dwy sir. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi profi anawsterau wrth weithio mewn partneriaeth ar sawl lefel ac y gallai fod yn frwydr ac yn anodd am nifer o resymau. Fodd bynnag, tra ‘roedd y Cyngor yn derbyn anogaeth y Llywodraeth i weithio mewn partneriaeth, ‘roedd yn rhaid gwneud y gorau o’r sefyllfa gan ymdrechu i gael y canlyniad gorau ar gyfer pobl Gwynedd. Mewn ymateb i ymholiad pellach, pwysleisiodd yr Arweinydd nad oedd yn anghyffyrddus o gwbl gyda’r bartneriaeth a’i fod yn optimistaidd ynglŷn â’r cydweithio. Ychwanegodd fod raid cydnabod y rhwystrau, ond o gydnabod a deall y rhwystrau hynny, ‘roedd yna fwy o obaith o lwyddo. Nododd na ddylid mynd o flaen gofid, serch y dystiolaeth sydd yna o broblemau yn y gorffennol. ‘Roedd cynllun wedi’i gytuno gan y ddwy sir a’r gamp oedd adeiladu ar y sail gadarn honno a cheisio gwneud gwaith fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd a Môn.

(7) Mynegwyd dymuniad i weld mwy i godi gobaith o safbwynt yr economi, yn enwedig yn Ne Gwynedd. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd ei fod yn cytuno’n llwyr â’r pwyslais ar yr economi a’r hyn y gall economi gref ei olygu i’r ardaloedd hyn. Eglurodd fod pwyslais y cynllun hwn ar y gwaith partneriaethol, ond ‘roedd rhaid i Wynedd, fel sir, fynd i’r afael â materion sy’n effeithio ar yr economi wledig, yn Nwyfor a Meirionnydd yn bennaf. Hefyd, ‘roedd yn ofynnol sicrhau, wrth ddod â Gwynedd a Môn at ei gilydd, bod anghenion holl gymunedau’r ddwy ardal yn cael eu cyfarch. Dylid mynd i’r afael â’r gwaith mewn ffordd bositif ac optimistaidd, ac ‘roedd hynny ynddo’i hun yn gallu cael effaith gadarnhaol ar y sawl mae’r Cyngor yn cydweithio â hwy. Awgrymodd fod yna rôl i’r pwyllgor craffu fonitro cynnydd y gwaith a chyfeiriodd at brosiectau yn y maes gofal a’r maes amgylchedd fel enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus ar lefel sirol yn y gorffennol.

(8) Mynegwyd pryder bod Llywodraeth San Steffan yn bwriadu rhoi’r gwaith o ddadgomisiynu Gorsaf Niwclear Trawsfynydd o’r neilltu rhwng 2016 a 2021.

Nodwyd y byddai'r cannoedd o weithwyr lleol sy'n gweithio ar y safle yn debygol o adael yr ardal yn hytrach nag aros i'r gwaith ddychwelyd ymhen 5 mlynedd a holwyd pa bwysau y gellid ei roi rhwng Gwynedd a Môn i geisio cadw'r safle'n agored. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd fod y Cyngor mewn trafodaethau cyson gyda'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a rheolwyr y safle ac y ceisid dwyn pwysau i'r gwaith barhau, a hefyd i uchafu safle Trawsfynydd fel man cyflogaeth o bwysigrwydd, nid yn unig i Dde'r sir, ond hefyd i'r sir gyfan.

**5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2013-2014**

Cyflwynwyd – y fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

Gan gyfeirio at eitem A6 – Trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio, nododd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu y galwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 7 Chwefror i edrych ar y gofynion newydd sy'n cael eu cyflwyno o ran y trefniadau cynllunio ar draws Cymru a bod croeso i aelodau'r pwyllgor hwn fynd yno fel sylwedyddion. Nododd aelod fod y cyfarfod hwn yn gwrthdaro gyda chyfarfod brys o Gynhadledd Sefydlog Rheilffordd y Cambrian.

Mewn perthynas ag eitem A13 – Cofrestru ail gartref fel busnes, awgrymodd y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu fod y Pennaeth Cyllid yn rhoi arweiniad pellach i'r aelodau ar y mater hwn mewn seminar i'w threfnu ar 31 Mawrth.

Trafodwyd y diffygion yn nhrefn y Cyngor o ymgynghori gydag aelodau yn sgil sylw'r aelod lleol bod y gwasanaeth cludiant i ysgol gynradd Llanrug wedi ei dorri'n ddirybudd ddiwedd y tymor diwethaf. Cyfeiriodd sawl aelod at ddiffygion tebyg yn eu wardiau hwythau. 'Roedd rhai aelodau o blaid gosod y mater ar raglen cyfarfod nesaf y pwyllgor gan wahodd y Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yno i ymhelaethu ar y trefniadau y gellid eu rhoi mewn lle i sicrhau na fydd y math yma o sefyllfa'n codi eto. 'Roedd aelodau eraill o'r farn nad mater pwyllgor oedd hyn, eithr mater gweithredol. 'Roedd y pwyllgor eisoes wedi cael cyfle i holi'r Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Aelod Cabinet ynglŷn â Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor fis Medi diwethaf ac 'roeddent o'r farn nad oedd diben rhoi'r mater yn ôl ar yr agenda bob tro mae problem yn codi. Nododd y Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu ei bod yn amserol i'r pwyllgor dracio gweithrediad yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn dilyn y drafodaeth ar y Strategaeth Ymgysylltu yn y pwyllgor ym mis Medi, yn enwedig o ddeall bod y Cabinet yn ystyried y strategaeth yn eu cyfarfod ar 28 Ionawr.

**PENDERFYNWYD tracio'r eitem y Cyngor a'r Cyhoedd – Ymgysylltu yn y Cyfarfod Paratoi nesaf ar 18 Chwefror gan:-**

- **Edrych beth yw'r strategaeth sy'n cael ei chyflwyno;**
- **Edrych beth fu'r ymateb hyd yma gan yr Aelod Cabinet;**
- **Ystyried a ddylid gwahodd y Pennaeth Gofal Cwsmer / Aelod Cabinet Gofal Cwsmer i gyfarch rhai materion penodol yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ar 27 Mawrth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.40pm.

# Agenda Wledig – Drafft

Beth yw'r ddarpariaeth gyfredol yn y Sir i wella cynhwysiad cymdeithasol a sut mae ei wella?

# Adroddiad Terfynol drafft
# i'r
# Pwyllgor Craffu Corfforaethol
# ar
# 27 Mawrth 2014

**Ymchwiliad Craffu gan grŵp o aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Crynodeb | 4 |
| Prif Ganfyddiadau | 4 |
| Prif Argymhellion | 6 |
| Adroddiad Llawn | 8 |
| Nod yr Ymchwiliad | 8 |
| Y Dystiolaeth a ystyriwyd | 8 |
| Canfyddiadau | 10 |
| Argymhellion | 20 |
| Cydnabyddiaeth a Darllen Pellach | 24 |

# Rhagair

Cyflwynir yn yr adroddiad yma y prif faterion a amlygwyd gan Ymchwiliad Craffu i Agenda Wledig – Darparu Gwasanaethau er ystyriaeth Arweinydd y Cyngor.

Yn dilyn cynnal etholiadau i Gyngor Gwynedd ym mis Mai 2012, gofynnwyd i'r cynghorwyr a etholwyd pa faterion a oedd yn achosi fwyaf o bryder i'w hetholwyr. Daeth yn amlwg bod y mater o gynnal gwasanaethau ar draws y Sir mewn cyfnod heriol yn achosi cryn bryder i ddinasyddion Gwynedd. Roedd yn fater o ddiddordeb i aelodau'r tri phwyllgor craffu.

Fe sefydlwyd yr Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 31 Ionawr 2013, ac fe gyflwynir yr Adroddiad yma i sylw'r Pwyllgor Craffu ar 27 Mawrth 2014. Mae'r prif faterion a godwyd gan yr aelodau craffu yn cael eu cyfarch yn y Cynllun Strategol newydd 2013-17 – Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd. Rhoddir cryn bwyslais i'r materion dan sylw ym Mlaenoriaeth CC2 – Lleihau Effaith Tlodi ac Amddifadedd a Blaenoriaeth CC3 – Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Carwn ddiolch i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr fel swyddog gweithredol y blaenoriaethau yma am eu cyfraniadau i'r Ymchwiliad.

Mae'r drefn o gynnal ymchwiliadau craffu annibynnol gan yr aelodau craffu yn dal i fod mewn cyfnod datblygol. Er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad terfynol fe gomisiynwyd gwaith ychwanegol o gynnal Grwpiau Ffocws mewn tair ardal ar draws y Sir (o blith y 18 ardal yng Ngwynedd sy'n sgorio'n isel iawn o ran Mynediad i Wasanaethau yn asesiad MALIC (2011). Bu'r gwaith yma'n ganolog wrth ddod at gasgliadau ac argymhellion a gyflwynir er ystyriaeth Arweinydd y Cyngor.

Daethom at gasgliad cymharol amlwg ond arwyddocaol, sef ein bod yn ystyried bod Gwynedd gyfan yn 'ardal wledig', er bod rhannau o'r Sir yn fwy poblog na'i gilydd. Y ffactor bwysicaf yw *faint o bobl a effeithir arnynt* nid *dwysedd* poblogaeth ddifreintiedig. Mae hyn yn wir ar gyfer Gwynedd a Chymru gyfan. Felly, ystyriwyd bod cyfleu prif negeseuon yr Ymchwiliad i Lywodraeth Cymru yn ogystal â Chabinet y Cyngor yn gwbl berthnasol. Rwyf yn ddiolchgar i Aelod Cynulliad Arfon am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Craffu i dderbyn yr Adroddiad a gwrando ar ein sylwadau.

Yn olaf, mae'n bleser gennyf ddiolch i'm cyd aelodau yn y Grŵp Ymchwiliad a'r swyddogion am eu cyfraniadau a chefnogaeth werthfawr ar hyd y daith.

Cynghorydd Elwyn Edwards

Cadeirydd
Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig

Mawrth 2014

# CRYNODEB

## PRIF GANFYDDIADAU

**1.1 Yn y tymor byr, canolig a hir dymor, cynnal economi mor llewyrchus â phosibl a chyflogaeth ar draws y Sir yw'r elfen bwysicaf o ran cynnal cynhwysedd cymdeithasol a mynediad i wasanaethau.**

**2.1 Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru I gydweithio'n effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau statudol ac anstatudol i drigolion ar draws y Sir.**

**3.1 Nid yw'n ymarferol nac yn gynaliadwy i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor yn y modd traddodiadol, ac mae cynnal deialog adeiladol ac ystyriol gyda'r Trydydd Sector a Chymunedau yng Ngwynedd yn hanfodol os am gynnal gwasanaethau dwyieithog o safon ar draws y Sir.**

**4.1 Nid oes tystiolaeth glir i ddangos bod mynediad at wasanaethau siopa yn peri anawsterau difrifol i'r rhai a holwyd mewn ardaloedd gwledig, ond mae methu cael mynediad hwylus at rai defnyddiau sylfaenol yn fater o bryder i rai.**

**5.1 Nid oedd gan y rhai a holwyd profiadau positif o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Er nid oedd yn amlwg bod nifer o'r rhai a holwyd yn ddefnyddwyr cyson ar wasanaethau teithio cyhoeddus.**

**6.1 Nid oes gwasanaethau bancio ar gael yn gyffredinol yng nghefn gwlad y tu allan i'r prif ganolfannau fel Pwllheli a'r Bala.**

**7.1 Canfuwyd cryn wahaniaethau rhwng y tair ardal (Meirionnydd, Arfon a Dwyfor) o safbwynt mynediad at wasanaethau iechyd, gyda phryderon difrifol gan y rhai a holwyd ym Mhen Llŷn yn benodol o safbwynt diogelwch y gwasanaeth ar y penwythnos.**

**8.1 Ni nodwyd unrhyw bryderon penodol am ddarpariaeth addysg Cyngor Gwynedd drwy'r ysgolion. Roedd ymdeimlad bod gwasanaethau cefnogol i ddisgyblion mewn ysgolion wedi gwella a bod manteision ac anfanteision i ysgolion bach a mawr.**

**9.1 Mae ymdeimlad cymunedol yn y tair ardal dan sylw. Nodwyd nifer o weithgareddau amrywiol a oedd yn digwydd yn y cymunedau er bod rhai pentrefi'n fwy gweithgar nag eraill.**

**10.1 Cafwyd tystiolaeth yn y Grwpiau Ffocws bod y rhai a oedd yn bresennol yn ymwybodol bod pwysau cynyddol ar y Cyngor a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau gyda llai o adnoddau. Er bod parodrwydd i ystyried derbyn gwasanaethau mewn dulliau amgen, nid oedd pobl yn glir ynglŷn â beth oedd ar gynnig.**

**11.1 Nid yw'n glir o gwbl beth yw maint difrifoldeb y sefyllfa yn y maes yma na sut y gellid ei ddatrys. Yn sicr mae angen gwyntyllu'r elfen yma'n ofalus.**

**12.1 Gellid datblygu rôl i Gynghorau Cymuned lle'n bosibl i ddarparu gwasanaethau bancio/post/meddygol unwaith yr wythnos mewn tafarndai/neuaddau pentref.**

**13.1 Mae enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd. Rydym wedi cyfyngu ein gwaith yn y maes yma i restru 'cynlluniau penodol' i wella cynhwysiad ac i gael barn yn y grwpiau ffocws. Nid yw'n glir pa mor llwyddiannus yw'r mentrau yma. Roedd y rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws yn ymwybodol o rai o'r cynlluniau ac yn eu canmol.**

**14.1 Rydym yn nodi enghreifftiau o arfer da y tu allan i'r Sir. Eto, nid ydym wedi medru asesu pa mor llwyddiannus y bu'r cynlluniau yma o ran cynyddu cynhwysiad, ond rydym yn ystyried bod budd mewn rhoi sylw iddynt wrth ddatblygu cynlluniau penodol.**

# PRIF ARGYMHELLION

## Ymgysylltu

**15.1 Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd y Cyngor yn fan cychwyn da ac mae angen sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn rhoi blaenoriaeth i gasglu barn a thystiolaeth gan ddinasyddion ac ystyried yn ofalus effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.**

## Yr Economi

**15.2 Mae angen i chi gytuno gyda Llywodraeth Cymru ar gyfeiriad a gweithrediad Strategaeth Economaidd a Gofodol i Wynedd a Môn fel man cychwyn ar gyfer ariannu adeiladwaith (i gynnwys priffyrdd a chludiant) fel y prif yrrwr i gynllunio mynediad at wasanaethau ar draws y Sir.**

## Gwasanaethau Amgen

**15.3 Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos yn glir ac yn fuan beth yw'r ffordd ymlaen. Cafwyd peth tystiolaeth gan yr Ymchwiliad bod trigolion Gwynedd yn barod i ystyried newidiadau i'w gwasanaethau, ond mae angen bwrw iddi ar fyrder i ddiwallu ofnau ac i gynllunio a darparu gwasanaethau o safon uchel mewn ffyrdd amgen.**

## Gwasanaethau Siopa'n Lleol

**15.4 Targedwch fusnesau preifat a thrydydd sector sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y cymunedau er mwyn eu cefnogi i ddatblygu gwasanaeth siopa hwylus fel canolbwynt i'r gymuned leol, gan anelu iddynt ddod yn hunangynhaliol erbyn 2016 cyn diwedd oes Cynllun Strategol y Cyngor yn 2017. Yna, gallwch gynnal asesiad manwl er mwyn sefydlu ffordd ymlaen ar gyfer Cynllun Strategol dilynol Gwynedd.**

## Trafnidiaeth

**15.5 Mae angen cynllunio cludiant cyhoeddus ar ddwy haen:**

**HAEN A: Cytuno gyda Llywodraeth Cymru ar Ganolfannau Gwasanaeth ar draws y Sir ac yn rhanbarthol, gan gynllunio cludiant cyhoeddus i gysylltu â phrif leoliadau poblogaeth Gwynedd.**

**HAEN B: Mae angen i'r Cyngor ail-lunio gwasanaethau o'r prif leoliadau poblog i ardaloedd gwledig. Yn unol â'r cyfeiriad yn Adroddiad Williams, ystyriwn mai rôl cynghorau cymuned ar eu newydd wedd yw'r gwaith yma ac y dylid cynnal tri chynllun arloesol lle bod grŵp o gynghorau yn dangos parodrwydd i weithredu ar hyn rhwng nawr a 2016. Yna, cynnal asesiad manwl o'r tri chynllun.**

## Iechyd ym Mhen Llŷn

**15.6 Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu datrysiad brys dros dro i ganfyddiad y trigolion lleol am ddiffyg diogelwch y gwasanaeth iechyd ym Mhen Llŷn ar benwythnosau.**

## Disgwyliadau Realistig

**15.7 Ymchwiliwch ymhellach i weld a oes tystiolaeth bod cynnal gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill 'o bell' yn creu problemau iechyd mwy dwys neu anawsterau eraill yn y tymor canolig a hir dymor i ddefnyddwyr gwasanaeth. Os oes tystiolaeth o hyn yn dod i'r amlwg, yna, gwnewch ddarpariaeth briodol i liniaru'r effaith wrth gynllunio'r gwasanaethau.**

## Adeiladu ar Arfer Da

**15.8 Adeiladwch ar y ddarpariaeth gyfredol sy'n bodoli yng Ngwynedd i wella mynediad i wasanaethau drwy adnabod ac asesu ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan y Trydydd Sector a'r Sector Breifat ar draws y Sir. Cynlluniwch wasanaethau amgen dros gyfnod o dair blynedd neu fwy drwy roi arweiniad a chefnogaeth briodol iddynt.**

# Nod yr Ymchwiliad

Adnabod enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd.

Nodi ac ystyried enghreifftiau o arfer da y tu allan i'r Sir

Cyflwyno argymhellion i Arweinydd y Cyngor i weithredu arnynt yn uniongyrchol neu fel partner i wella cynhwysiad.

# Y Dystiolaeth a ystyriwyd

Penodwyd y canlynol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn aelodau o'r Grŵp Ymchwiliad:

- Y Cynghorydd Lesley Day
- Y Cynghorydd Elwyn Edwards
- Y Cynghorydd June Marshall
- Y Cynghorydd Gareth Thomas
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams

Cytunwyd y prif gategorïau ar gyfer Grwpiau Ffocws.

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil ar gyd-destun Cytunwyd mewn cyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Prosiect Cynllun Strategol (Harry Thomas, Y Prif Weithredwr) ar y ffordd ymlaen gyda'r ymchwiliad.

Dyma grynodeb o waith yr ymchwiliad:

| **Dyddiad** | **Casglu Tystiolaeth** |
|---|---|
| 20.02.2013 | Cyfarfod anffurfiol i drafod sgôp y briff |
| 18.04.2013 | Ethol Cadeirydd, cytuno'r briff a'r rhaglen waith |
| 04.06.2013 | Ystyried cyflwyniad y Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil ar ddadansoddiad manwl o barth 'Mynediad at Wasanaethau' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yng nghyd-destun Gwynedd. |
| 23.07.2013 | Ystyried Rhestr Budd-ddeiliaid |
| 07.10.2013 | Grŵp Ffocws gyda phobl Ardal Llandderfel a Llanuwchllyn 1 a 2. |
| 09.10.2013 | Grŵp Ffocws gyda phobl Ardal Tregarth a Mynydd Llandygai a Phentir 2. |
| 10.10.2013 | Grŵp Ffocws gyda phobl Ardal Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Llanengan, Llanbedrog ac Abersoch. |

| | |
|---|---|
| 24.01.2014 | Y Grŵp Ymchwil yn ystyried canfyddiadau yn deillio o'r grwpiau ffocws. |
| | Ymchwil cyffredinol i arfer da yng Ngwynedd ac mewn ardaloedd tu allan i Wynedd drwy gydol cyfnod yr Ymchwiliad |

# Canfyddiadau

## Yr Economi

**1.1 Yn y tymor byr, canolig a hir dymor, cynnal economi mor llewyrchus â phosibl a chyflogaeth ar draws y Sir yw'r elfen bwysicaf o ran cynnal cynhwysedd cymdeithasol a mynediad i wasanaethau.**

1.2 Yng nghyd-destun Gwynedd a gorllewin Cymru'n gyffredinol, mae'r ffaith bod Cynnyrch Crynswth Domestig (Gross Domestic Product) islaw 75% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn her anferthol yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

1.3 Mae angen I Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ystyried yn fanwl pa mor fregus yw'r sefyllfa economaidd mewn ardaloedd gwledig wrth ddatblygu'r 'Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020'.

1.4 Mae'n hanfodol bod unrhyw gefnogaeth ariannol posibl i ddatblygu a chynnal yr economi yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol yn y Sir. Mae angen Strategaeth Economaidd gytunedig glir sydd yn cydlynu'n bwrpasol gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.[1]

1.5 Yn yr un modd, mae angen cydweithio slic a phwrpasol rhwng Llywodraeth Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn a Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd nid yn unig i gydlynu gwasanaethau ond hefyd i uchafu gwerth economaidd y bunt gyhoeddus er budd trigolion a chymunedau Gwynedd.

Mae'r sector gyhoeddus yng Nghymru yn gwario gwerth £4.3 biliwn yn flynyddol. Mae hwn yn yrrwr sylweddol a allai roi hwb allweddol i symud yr economi wledig ymlaen rhwng 2014-20.[2]

## Cyfrifoldebau

**2.1 Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru I gydweithio'n effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau statudol ac anstatudol i drigolion ar draws y Sir.**

2.2 Pwynt hynod syml ac eto hynod gymhleth! Yn hyn o beth mae cyhoeddiad diweddar Adroddiad Syr Paul Williams ar waith *y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* (Ionawr 2014) yn ategu hyn.

2.3 Mae'n werth nodi bod Adroddiad Williams yn ymdriniaeth drylwyr o gynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol. Eto, go brin y gellid casglu bod hyd yn oed y Comisiwn yma wedi llwyddo i ateb un o'i brif amcanion:

[1] Gweler Atodiad 1 – Ymateb Gwynedd i'r Cynllun Datblygu Gwledig
[2] Gwefan Llywodraeth Cymru – Gwasanaethau eGaffael ar draws y Sector Gyhoeddus Gymraeg

'*Cynnig y model gorau posibl ar gyfer llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru…..*'

2.4 Felly, mae'n werth nodi ar y cychwyn na fu i ni chwaith ddod i gasgliad diamwys ynglŷn â'r model gorau o gynllunio a darparu gwasanaethau yng Ngwynedd ond mae amryw enghreifftiau o arfer da sy'n deilwng o sylw.

2.5 Un elfen aneglur yn y darn yma o'r gwaith mewn rhai gwasanaethau yw adnabod y berthynas yn y tir llwyd rhwng gwasanaeth statudol ac anstatudol o safbwynt y cwsmer a beth yw arwyddocâd hyn i'r Cyngor a'i bartneriaid o ran cyfeirio adnoddau.

2.6 Yn wir, mae'n anorfod bod y Cyngor wrth gynllunio gwasanaethau yng nghyd-destun y lleihad parhaus mewn adnoddau gan Lywodraeth Cymru yn wynebu sefyllfaoedd gynyddol heriol o safbwynt sicrhau mynediad i wasanaethau i drigolion y Sir.

2.7 Mae *Adroddiad Williams* yn rhoi peth sylw i'r elfennau yma o ddau gyfeiriad - lleihad mewn adnoddau a rheoli galw am wasanaeth. Mae hon yn thema ganolog yng ngwaith strategol y Cyngor ac yn cael ei grisialu dan y pennawd '*Ffordd Gwynedd'* a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 23 Chwefror 2013.[3]

2.8 Mae cael eglurder gan Lywodraeth Cymru ar eu cefnogaeth i'r ffordd newydd yma o weithio yn hanfodol i gynllunio gwasanaethau'n bwrpasol ar gyfer dinasyddion Gwynedd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Os ydi cynllunio neu ddarparu gwasanaeth anstatudol yn arwain at leihau galw, yna, gellid ystyried bod hyn mewn gwirionedd yn 'wariant clyfar' o adnoddau 'statudol' ond mewn maes 'anstatudol'. Mae'r mater yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017 dan Flaenoriaeth DT5 – Lleihau'r Galw ar Wasanaethau drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar.[4]

Un enghraifft syml o hyn fyddai gwario ar gadw dinasyddion yn iach rhag iddynt fynd yn sâl.

2.9 Mae Argymhelliad 7 Adroddiad Williams (t350) yn awgrymu y daw hyblygrwydd posibl i gyflawni hyn:

*Rhaid I Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wneud y canlynol:*

- *Ystyried yr angen i gyflawni canlyniadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yn uniongyrchol wrth ddeddfu;*
- *Adolygu deddfwriaeth bresennol i sicrhau ei bod yn symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus yn hytrach na'u cyfyngu'n ddiangen neu eu cymhlethu; a naill ai diddymu darpariaethau o'r fath neu egluro eu hystyr a'u diben.*

2.10 Argymhellir canolbwyntio ar gael eglurder ar hyn yn ddi-oed.

[3] 'Ffordd Gwynedd – Canlyniadau Gwasanaeth Cynaliadwy Mewn Cyfnod Heriol'. Cyfarfod Cyngor Gwynedd 28/2/13
[4] Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017, tudalen 51, Blaenoriaeth DT5

2.11 Cafwyd peth sylwadau penodol gan drigolion yn rhai o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar draws y Sir a oedd yn dangos bod rhai o drigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau'n wahanol.

Dyma rai sylwadau o Ben Llŷn ynglŷn â chael balans rhwng osgoi problemau iechyd yn hytrach na gwella anhwylderau:

*Mae'r proffesiwn iechyd yn dechrau dod rownd i geisio cael pobl yn iachach yn hytrach na thrin afiechydon - dechrau rhoi presgripsiwn am ymarfer corff ac ati.*

*Haws dweud na gwneud - anodd perswadio pobl i fod yn iachach yn hytrach na phroblem gydag ymwybyddiaeth.*
*Angen dechrau efo plant - clybiau a chonsesiynau ac ati er mwyn eu cael i mewn i arferion da o ran cadw'n iach.*

# Newid mewn Gwasanaethau

**3.1 Nid yw'n ymarferol nac yn gynaliadwy i ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor yn y modd traddodiadol, ac mae cynnal deialog adeiladol ac ystyriol gyda'r Trydydd Sector a Chymunedau yng Ngwynedd yn hanfodol os am gynnal gwasanaethau dwyieithog o safon ar draws y Sir.**[5]

3.2 Cyflwynwyd cefndir i'r drafodaeth ar hwylustod mynediad i wasanaethau gan Reolwr Gwybodaeth ac Ymchwil y Cyngor, Rhoddwyd ystyriaeth i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ei grynswth sy'n anelu i roi darlun cyffredinol o amddifadedd ar draws Cymru.

3.3 Mae'r Mynegai yn rhoi ystyriaeth I 8 o elfennau (parthau) gwahanol yr ystyrir sy'n cyfrannu i wahanol raddau ar amddifadedd y boblogaeth. Yr with elfen (parth) yma yw safon a lefelau: Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Diogelwch Cymunedol, Amgylchedd Ffisegol, Tai addas a Mynediad at Wasanaethau.

| Parthau MALIC | |
|---|---|
| Incwm | 23.5% |
| Cyflogaeth | 23.5% |
| Iechyd | 4% |
| Addysg | 14% |
| Mynediad at Wasanaethau | 10% |
| Diogelwch Cymunedol | 5% |
| Amgylchedd Ffisegol | 5% |
| Tai | 5% |
| Mynegai Llawn | 100% |


[5] Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017, Tudalen 42, Blaenoriaeth CC3

3.4 Er bod pob un o’r elfennau yma’n cyfrannu tuag at gynhwysedd cymdeithasol, penderfyniad aelodau’r ymchwiliad oedd canolbwyntio ar yr elfen olaf – Mynediad at Wasanaethau.

3.5 Nid yw hyn yn golygu bod y saith elfen arall yn llai perthnasol o safbwynt cynhwysedd cymdeithasol. Yn wir, ym marn aelodau’r ymchwiliad mae’r elfennau i gyd yn cydblethu ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Nodir yn arbennig, y pwysedd uchel dyladwy a roddir i lefel incwm a lefel a safon cyflogaeth fel y ddwy brif elfen o safbwynt cynnal a gwella cynhwysedd cymdeithasol. Ystyriwyd y byddai angen cynllunio mwy hir dymor ac mae’n debyg adfywiad yn yr hinsawdd economaidd i fedru effeithio ar welliannau sylweddol yn y meysydd yma.

3.6 Ystyriwyd y gellid dylanwadu’n fwy effeithiol ar yr elfennau eraill yn y tymor canolig. Felly, er mwyn canolbwyntio ar faes penodol mae’r pwyslais yng ngweddill yr adroddiad yma ar ddadansoddiad manwl o’r sylwadau a wnaed yn y grwpiau ffocws. Ni ellir honni bod y grwpiau yma’n rhoi darlun llawn o’r sefyllfa yn eu hardaloedd, ond maent yn rhoi ciplun defnyddiol o ganfyddiadau pobl yn eu cymunedau o fynediad at wasanaethau.

3.7 Yn dilyn derbyn dadansoddiad gan yr Uned Ymchwil o’r parth mynediad i wasanaeth, canfuwyd bod deunaw o ardaloedd yng Ngwynedd yn cael eu hystyried gyda’r mwyaf amddifad yng Nghymru. Penderfynwyd dewis 8 o’r ardaloedd yma a oedd wedi’u clystyru mewn 3 lleoliad gwahanol i gynnal grwpiau ffocws gyda thrigolion lleol sef ardaloedd Llanuwchllyn a Llandderfel; Tregarth a Mynydd Llandygai a Phentir 2; Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Llanengan, Llanbedrog ac Abersoch.




3.8 Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n ymgynghori ar y dangosyddion ar gyfer y Mynegai Amddifadedd nesaf (diwedd 2014). Maent yn cynnig newid y mesur ‘amser teithio’ sydd ar sail cyfuniad o ddefnydd bws a/neu gerdded. Byddai gweithredu’r newid yma’n golygu

y byddai'r mesur yn debycach i ddulliau Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon o gyfrifo 'mynediad at wasanaethau'.[6]

3.9 Daeth 24 o bobl ynghyd ar gyfer y tri digwyddiad, ac roedd modd felly i wyntyllu'r materion yn well na chynnal holiadur.

# Grwpiau Ffocws

Dyma grynodeb o'r prif sylwadau a wnaed o safbwynt effaith ar y Dinesydd.

## Gwasanaethau Siopa Sylfaenol

4.1 Nid oes tystiolaeth glir i ddangos bod mynediad at wasanaethau siopa yn peri anawsterau difrifol i'r rhai a holwyd mewn ardaloedd gwledig, ond mae methu cael mynediad hwylus at rai defnyddiau sylfaenol yn fater o bryder i rai.

4.2 Mae eitemau mewn siopau bach fel arfer yn ddrytach ac mae'r dewisiadau yn llai. Nid yw'n bosibl i siopau bach gadw stoc o fwydydd ffres, felly prif werth siopau bach yw i gadw stoc o fwydydd cadw ac efallai ychydig o lefrith a bara.

4.3 Er mwyn cael dewisiadau digonol a phrisiau gwell bydd y dinasyddion a holwyd yn siopa mewn siop fawr rad neu'n siopa ar lein gan dderbyn eu cyflenwadau i'r cartref gan faniau'r cwmnïau mawr

4.4 Mae fan sy'n gwerthu bwydydd yn teithio i bentrefi yn syniad da ac o bosibl yn gyfle busnes y gellid ei annog.

4.5 Nodwyd enghraifft lwyddiannus o dafarn leol yn cynnig gwasanaeth sy'n darparu bwydydd sylfaenol, nwyddau trydan, nwyddau ar gyfer yr ardd a'r Daily Post.

4.6 Elfen negyddol o siopa mewn siopau mawr canolig yw bod yr elfen gymdeithasol a chyfeillgar yn cael ei cholli. Mae'n debyg bod colli'r gyfathrach gymdeithasol yma yn arwain at broblemau ehangach fel unigrwydd a salwch.

4.7 Roedd ymdeimlad gan rai bod cynnal siopau bach yn gofyn am ymrwymiad cymunedol a oedd yn golygu bodloni ar dalu mwy am eitemau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau. Roedd barn arall yn nodi os nad oedd y busnes yn medru cystadlu yna nid oedd yn gynaliadwy, ac y gallai cefnogi busnes o'r fath roi pwysau ar siopau mwy proffidiol yn y trefi a oedd yn cynnal cyflogaeth yn lleol.

## Trafnidiaeth

5.1 Nid oedd gan y rhai a holwyd profiadau positif o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Er nid oedd yn amlwg bod nifer o'r rhai a holwyd yn ddefnyddwyr cyson ar wasanaethau teithio cyhoeddus.

[6] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2014

5.2 Nodwyd bod amlder, amseroedd a llwybrau gwasanaethau bysiau yn creu anawsterau; ac weithiau byddai prinder bysiau yn golygu nad oedd lle arnynt a byddent yn mynd heibio heb godi teithwyr.

5.3 Roedd gofal cwsmer rhai gyrwyr yn ddiffygiol, yn enwedig tuag at bobl ifanc a theithwyr nad oedd yn medru darparu'r union dâl am docyn.

5.4 Er nad oedd y rhai a holwyd wedi defnyddio gwasanaeth 'O Ddrws I Ddrws', nododd un ohonynt ei bod hi'n cludo pobl fel cymwynas. Awgrymwyd yn ehangach y byddai'n well defnydd o adnoddau i ddarparu mwy o wasanaethau cludiant cymunedol gyda'r trydydd sector a CIL De Gwynedd yn hytrach na rhedeg gwasanaethau bysiau sydd fel arfer yn wag.

5.5 Roedd pryder bod prisiau parcio'r Cyngor yn annealladwy o ddrud.

5.6 Ystyriwyd gan rai bod pobl ifanc yr un mor anghenus o safbwynt angen teithio yn rhad ac am ddim â phobl hyn ac oedrannus.

5.7 Mae darpariaeth lonydd diogel i seiclo yn ysbeidiol - mae angen gwell cysylltiadau â'r pentrefi.

5.8 Nid yw'r wybodaeth ar gyfer amserlenni'n hawdd ei gael.

5.9 Angen cydgordio gydag anghenion cerddwyr a thwristiaid.

5.10 Creu trefn i bobl sy'n teithio'n gyson yn eu ceir eu hunain i gynnig gwasanaeth anffurfiol er mwyn helpu pobl i fod yn symudol.

5.11 Datblygu system o drefnu trafnidiaeth i hybiau canolog er mwyn cael cwsmeriaid at y bysiau, gan roi symudoledd i bobl heb gystadlu gyda thrafnidiaeth gyhoeddus

## Gwasanaethau Ariannol

6.1 Nid oes gwasanaethau bancio ar gael yn gyffredinol yng nghefn gwlad y tu allan i'r prif ganolfannau fel Pwllheli a'r Bala. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi diflannu o rai trefi hefyd megis Cricieth. Prif effaith hyn yw nad oes modd:

- codi arian parod
- talu arian i mewn i gyfrifon banc.
- Gwirio balansau yn y cyfrifon banc

6.2 Nodwyd bod cynllun grant am Beiriant Codi Pres (ATM) wedi bod yn rhedeg am gyfnod yn Sarn Mellteyrn, ond pan ddaeth y grant i ben, daeth y gwasanaeth i ben. Mae'n bosibl codi arian o Swyddfa'r Post drwy gerdyn mewn rhai lleoliadau.

6.3 Roedd diffyg cyfleustra codi arian yn peri cryn bryder i'r Grŵp Ffocws o Ben Llŷn. Roedd yr angen i fynd i Bwllheli I godi pres yn golygu bod mwy o debygolrwydd y byddai trigolion gwledig yn mynd i'r dre i godi pres ac i siopa yn sgil hynny gan arwain at lai fyth o wariant yn y siopau bach cefn gwlad.

6.4 Ychydig o ddiddordeb oedd gan y rhai a holwyd mewn defnyddio gwasanaethau ar lein. Roedd y cyfleustra o fedru codi symiau cymharol fach o bres (£5) ar y tro yn bwysig i rai. Yn ogystal, roedd yr elfen o ymddiried mewn delio gyda phobl wyneb yn wyneb yn rhoi tawelwch meddwl i rai.

6.5 Roedd Swyddfa'r Post yn dod I Neuadd Llanuwchllyn bob Dydd Mawrth am ddwy awr. Mae pobl hyn yn defnyddio'r gwasanaeth yma ar gyfer codi pensiwn. Nodwyd pryder bod gorfodaeth ar bobl sy'n cyrraedd oed pensiwn nawr i dderbyn taliad yn uniongyrchol i'w cyfrif banc.

## Gwasanaethau Iechyd

7.1 Canfuwyd cryn wahaniaethau rhwng y tair ardal (Meirionnydd, Arfon a Dwyfor) o safbwynt mynediad at wasanaethau iechyd, gyda phryderon difrifol gan y rhai a holwyd ym Mhen Llŷn yn benodol o safbwynt diogelwch y gwasanaeth ar y penwythnos.

**Ardaloedd Llanuwchllyn a Llandderfel**

7.2 Roedd ymdeimlad bod gwasanaeth Meddygfa'r Bala yn hwylus.

7.3 Roedd teithio i Langollen, Penrhyndeudraeth neu Rhuthun am wasanaeth Deintydd yn hwylus.

7.4 Nid oedd teithio i Wrecsam I'r Ysbyty yn hwylus ar gludiant cyhoeddus.

**Ardaloedd Tregarth a Mynydd Llandygai a Phentir 2**

7.5 Ymateb cymysg i wasanaethau meddygol ar lein a dros y ffôn.

**Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Llanengan, Llanbedrog ac Abersoch.**

7.6 Pryderon difrifol gan drigolion yr ardal yma am ddiogelwch darpariaeth y gwasanaeth iechyd ar benwythnosau. Mae'r safon yn iawn ond mae diffyg gwybodaeth a mynediad at wasanaeth yn destun pryder.

7.7 Er bod cynnal ymgynghoriadau mewn lleoliadau gwasgaredig a gwledig - e.e. neuaddau pentref, tafarndai neu ystafell mewn tŷ yn bosibl, weithiau mae angen cadw cyfrinachedd drwy fynd i leoliad niwtral canolog.

7.8 Mae defnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd apwyntiadau yn hwylus yn broblem

7.9 Croesewir rôl nyrsys cymunedol a gwasanaethau hamdden i hybu iechyd.

## Addysg

**8.1 Ni nodwyd unrhyw bryderon penodol am ddarpariaeth addysg Cyngor Gwynedd drwy'r ysgolion. Roedd ymdeimlad bod gwasanaethau cefnogol i ddisgyblion mewn ysgolion wedi gwella a bod manteision ac anfanteision i ysgolion bach a mawr.**

8.2 Er bod pobl ifanc yn gadael addysg amser llawn gyda chymwysterau da nid oes digon o gyfleoedd i'w defnyddio yn lleol ar gyfer cyflogaeth.

8.3 O ran darpariaeth dosbarthiadau nos ac achlysurol, roedd teimlad bod gweithgaredd a chefnogaeth gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr a Choleg Harlech I gynnal cyrsiau'n encilio.

## Cymdeithasu

**9.1 Mae ymdeimlad cymunedol yn y tair ardal dan sylw. Nodwyd nifer o weithgareddau amrywiol a oedd yn digwydd yn y cymunedau er bod rhai pentrefi'n fwy gweithgar nag eraill.**

9.2 Nodwyd cyfle i ehangu defnydd o rai adeiladau sy'n ganolbwynt i weithgareddau gan gynnig gwasanaethau oddi yno fel siop neu swyddfa bost.

9.3 Cafwyd sylwadau niferus ym Mhen Llŷn am y Ganolfan Hamdden ym Mhwllheli. Roedd teimladau cryfion ynglŷn â'r angen i'r Ganolfan ymgysylltu'n well gyda thrigolion yr ardal.

## Galw am Wasanaethau a Disgwyliadau

**10.1 Cafwyd tystiolaeth yn y Grwpiau Ffocws bod y rhai a oedd yn bresennol yn ymwybodol bod pwysau cynyddol ar y Cyngor a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau gyda llai o adnoddau. Er bod parodrwydd i ystyried derbyn gwasanaethau mewn dulliau amgen, nid oedd pobl yn glir ynglŷn â beth oedd ar gynnig.**

10.2 Mae disgwyliadau pobl o wasanaethau ar y cyfan yn synhwyrol a chymedrol. Un o'r nodweddion amlycaf a nodwyd oedd ofn am beth fydd dyfodol y gwasanaethau wrth i'r pwysau ariannol gynyddu. Yn hyn o beth, mae arwyddion bod y trigolion yn rhannu pryderon aelodau'r Cyngor a sefydliadau eraill sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau.

10.3 Mae angen datblygu gwaith ymgysylltu a rhannu gwybodaeth ymhellach, nid yn unig o safbwynt y cynllunio ond yn ogystal o ran cael mynediad hwylus i wybodaeth am wasanaethau a gynigir. Byddai hyn yn fodd i wella perchnogaeth o'r gwasanaethau ac i'w proffilio'n fwy effeithiol.

10.4 Yn ogystal, mae dealltwriaeth pobl o feddylfryd 'Ffordd Gwynedd' sy'n cael ei gyflwyno yng Nghynllun Strategol y Cyngor yn galonogol.

10.5 Un elfen benodol sydd angen sylw manwl yn fuan yw'r risg o effaith negyddol darparu gwasanaethau ar lein a dros y ffôn ar unigolion bregus.

## Trafnidiaeth a Chludiant

**11.1 Nid yw'n glir o gwbl beth yw maint difrifoldeb y sefyllfa yn y maes yma na sut y gellid ei ddatrys. Yn sicr mae angen gwyntyllu'r elfen yma'n ofalus.**

11.2 Mae un wedd i hyn yn awgrymu mae hwn yw'r rhan bwysicaf o ran sicrhau mynediad i wasanaethau. Gellid dadlau mai hwn yw'r man cychwyn ar gyfer cynllunio gwasanaethau.

11.3 Un pegwn byddai opsiwn o gyfyngu nifer y llwybrau cludiant cyhoeddus yn sylweddol a chynyddu'r amlder teithiau. Yna ceisio cyllid o ffynhonnell arall i ariannu'r trydydd sector/cynghorau cymuned i gynnal gwasanaeth ar alwad am bris gostyngol i gasglu teithwyr i gyrraedd pwyntiau stopio penodol ar y llwybrau teithio.

11.4 Pegwn arall yw bod cludiant car preifat yn hanfodol, a bod modd ystyried cynnig cymhelliant i berchnogion ceir i gludo trigolion sydd heb geir at wasanaethau.

## Canolfannau Amlbwrpas

**12.1 Gellid datblygu rôl i Gynghorau Cymuned lle'n bosibl i ddarparu gwasanaethau bancio/post/meddygol unwaith yr wythnos mewn tafarndai/neuaddau pentref.**

12.2 Dylid datblygu neuaddau pentref neu adeilad arall addas i fod yn galon y gymuned drwy redeg amrywiol wasanaethau ohonynt. Er y byddai yna gostau yn gysylltiedig â hyn, dyma'r ffordd ymlaen a diau y byddai yna bobl o fewn y gymuned fyddai'n barod i roi rhywfaint o'u hamser i gynorthwyo gyda menter o'r fath.

12.3 Nid yw pobl yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen, pwy ydi pwy, nac â phwy i gysylltu, a gallai hyn fod yn rôl i'r cynghorau cymuned.

## Arfer Da yng Ngwynedd

**13.1 Mae enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd. Rydym wedi cyfyngu ein gwaith yn y maes yma i restru nifer fach o gynlluniau amrywiol i wella cynhwysiad ac i gael barn yn y grwpiau ffocws. Nid yw'n glir pa mor llwyddiannus yw'r mentrau yma. Roedd y rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws yn ymwybodol o rai o'r cynlluniau ac yn eu canmol.**

**Rhestr gynhwysfawr:**
**http://mantellgwynedd.com**

**Dyma rai enghreifftiau diddorol:**
**http://www.oddrwsiddrws.co.uk/**
**CIL De Gwynedd**
**http://www.caban-cyf.org/**
**http://www.canolfan-talysarn.org.uk/**
**http://www.institiwtcorris.org.uk/cymraeg/welcome/index.php**

## Arfer Da y tu allan i Wynedd

**14.1 Rydym yn nodi enghreifftiau o arfer da y tu allan i'r Sir. Eto, nid ydym wedi medru asesu pa mor llwyddiannus y bu'r cynlluniau yma o ran cynyddu cynhwysiad, ond rydym yn ystyried bod budd mewn rhoi sylw iddynt wrth ddatblygu cynlluniau penodol.**

**Mae'r rhestr o gynlluniau a grwpiau sy'n gweithredu ar draws Cymru a thu hwnt yn enfawr. Mae'n gymharol hawdd cael mynediad at wybodaeth sylfaenol amdanynt ar y We.**

**Dyma rai o'n hoff enghreifftiau ni:**

www.cydcymru-egni.com

**Pub is the Hub (Cadwyn Clwyd)**

**Torfaen Footpath Volunteers**

Blaenavon Industrial Landscape World Heritage Site Voluntary Ranger Service

http://www.wheelstowork.org/

http://www.whitmore.village.uk.net/newsletter/newsletter2.html#rural

# Argymhellion

Nodwn argymhellion i'r Cyngor weithredu arnynt yn uniongyrchol ac fel partner i hybu gwella cynhwysiad drwy hwyluso mynediad i wasanaethau. Yn ogystal â phartneriaid lleol a rhanbarthol, ystyriwn fod Llywodraeth Cymru yn un o'r partneriaid allweddol.

## Ymgysylltu

15.1 Ceir enghreifftiau da o sefydliadau yn y sector gyhoeddus, trydydd sector, a'r sector breifat yn cynllunio a darparu gwasanaethau gyda golwg ar roi'r cwsmer yn y canol. Serch hynny, nid ydyw'n amlwg o waith yr Ymchwiliad bod gennym ddarlun clir o ofynion trigolion Gwynedd drwyddi draw o ran hwylustod mynediad at wasanaethau. Rydym o'r farn bod angen gwneud gwaith pellach sylweddol i greu proffil clir o'r sefyllfa gyfredol ar draws y Sir.

Mae angen ymgysylltu a lle'n briodol ymgynghori'n ystyrlon gyda thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau ar lefel strategol ac ar lefel darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Defnyddiwch rwydweithiau sy'n bodoli'n barod os ydynt yn addas yn hytrach na gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ymgysylltu.

Cynlluniwch yn ofalus gan sicrhau eich bod yn rhoi amser digonol ar gyfer paratoi darpar ddarparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth a thrigolion wrth gynllunio gwasanaethau.

**Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd y Cyngor yn fan cychwyn da ac mae angen sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn rhoi blaenoriaeth i gasglu barn a thystiolaeth gan ddinasyddion ac ystyried yn ofalus effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.**[7]

## Yr Economi

15.2 Nid oes arwyddion clir bod sefyllfa economaidd fregus Gwynedd yn debygol o wella'n sylweddol yn y tymor byr a chanolig. Bydd angen cyd-gyfeirio unrhyw adnoddau ariannol cyhoeddus neu fel arall yn effeithiol er mwyn uchafu eu gwerth o fewn y Sir.

**Mae angen i chi gytuno gyda Llywodraeth Cymru ar gyfeiriad a gweithrediad Strategaeth Economaidd a Gofodol i Wynedd a Môn fel man cychwyn ar gyfer ariannu adeiladwaith (i gynnwys priffyrdd a chludiant) fel y prif yrrwr i gynllunio mynediad at wasanaethau ar draws y Sir.**

[7] Strategaeth Ymgysylltu Cyngor Gwynedd 2013-2017

## Gwasanaethau Amgen

15.3 Mae'n anorfod bod y pwysau ariannol cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus yn golygu y bydd natur gwasanaethau'n newid. Mae'r Cyngor eisoes wedi rhoi sylw i hyn yn y Cynllun Strategol ac mae'r angen i weithredu wedi cyrraedd.

**Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos yn glir ac yn fuan beth yw'r ffordd ymlaen. Cafwyd peth tystiolaeth gan yr Ymchwiliad bod trigolion Gwynedd yn barod i ystyried newidiadau i'w gwasanaethau, ond mae angen bwrw iddi ar fyrder i ddiwallu ofnau ac i gynllunio a darparu gwasanaethau o safon uchel mewn ffyrdd amgen.**

## 15.4 Gwasanaethau Siopa'n Lleol

Nid oes tystiolaeth o bryderon mawr gan bobl mewn ardaloedd gwledig o ran mynediad at siopau. Serch hynny, mae'r diffygion o safbwynt cael cyfle i gymdeithasu drwy siopa yn y gymuned leol yn creu sefyllfa anodd ac o bosibl yn debygol arwain at gynyddu straen a phroblemau iechyd. Yn ogystal, mae cael mynediad hwylus at arian parod yn creu anawsterau.

Dyma enghraifft lle y gallai ymyrryd yn fuan er mwyn rhwystro problemau mwy difrifol a mwy costus nes ymlaen fod yn fuddiol ac yn ddefnydd effeithiol o adnoddau prin. Mae'n bosibl y byddai cefnogi busnesau preifat bychain a mentrau cymdeithasol sydd eisoes yn gweithredu yn fodd effeithiol o weithredu 'Ffordd Gwynedd' yn yr achos yma.

**Targedwch fusnesau preifat a thrydydd sector sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y cymunedau er mwyn eu cefnogi i ddatblygu gwasanaeth siopa hwylus fel canolbwynt i'r gymuned leol, gan anelu iddynt ddod yn hunangynhaliol erbyn 2016 cyn diwedd oes Cynllun Strategol y Cyngor yn 2017. Yna, gallwch gynnal asesiad manwl er mwyn sefydlu ffordd ymlaen ar gyfer Cynllun Strategol dilynol Gwynedd.**

## Trafnidiaeth

15.5 Cafwyd nifer o negeseuon gwerthfawr gan y Grwpiau Ffocws am bwysigrwydd trafnidiaeth a chludiant fel y brif ffactor o ran sicrhau mynediad cydradd i bawb i wasanaethau.

Mae cymhlethdod sylfaenol yn y maes yma, yn bennaf oherwydd y defnydd 'angenrheidiol' o geir ar gyfer byw yn 'normal' yn ôl arferion arferol yr unfed ganrif ar hugain mewn cymdeithas 'ddatblygedig' fel Cymru.

Yn y cyfnod byr a chanolig, yn ein barn ni mae angen ystyried bod y defnydd o gerbyd personol neu gerbyd gan aelod o'r teulu neu ffrindiau yng nghymunedau Gwynedd yn ofyn hanfodol er mwyn sicrhau mynediad cydradd a chyfartal i wasanaethau ar draws y Sir.

Ymhellach, rydym o'r farn na ellir cynnal gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n medru cyfarch anghenion rhai trigolion mewn rhai cymunedau. Mae gobygliadau difrifol i hyn.

Rydym o'r farn nad ydyw pawb yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt sicrhau mynediad at wasanaethau yng Ngwynedd.

Yn ogystal, mae angen mwy o hyblygrwydd o safbwynt cynllunio'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus er mwyn cefnogi datblygiad economaidd.

**Mae angen cynllunio cludiant cyhoeddus ar ddwy haen:**

**HAEN A: Cytuno gyda Llywodraeth Cymru ar Ganolfannau Gwasanaeth ar draws y Sir ac yn rhanbarthol, gan gynllunio cludiant cyhoeddus i gysylltu â phrif leoliadau poblogaeth Gwynedd.**

**HAEN B: Mae angen i'r Cyngor ail-lunio gwasanaethau o'r prif leoliadau poblog i ardaloedd gwledig. Yn unol â'r cyfeiriad yn Adroddiad Williams, ystyriwn mai rôl cynghorau cymuned ar eu newydd wedd yw'r gwaith yma ac y dylid cynnal tri cynllun arloesol lle bod grŵp o gynghorau yn dangos parodrwydd i weithredu ar hyn rhwng nawr a 2016. Yna, cynnal asesiad manwl o'r tri chynllun.**

## Iechyd ym Mhen Llŷn

15.6 Roedd y sylwadau a gafwyd o safbwynt gwasanaethau iechyd yn tystiolaethu sefyllfaoedd pur wahanol yn y tair ardal dan sylw. Yn hyn o beth, ystyriwn fod angen rhoi ystyriaeth bellach ar frys i'r sefyllfa ym Mhen Llŷn. (Gweler Argymhelliad 15.7)

Yn ardal Llanuwchllyn-Bala, y prif fater a amlygwyd oedd yr angen i wella'r mynediad i wasanaeth iechyd rhanbarthol yn Wrecsam. (Gweler Argymhelliad 15.5 uchod).

Er bod darpariaeth gwasanaethau iechyd yn ardal Pen Llŷn eisoes yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynlluniau ad-drefnu i'r dyfodol. Ystyriwn fod y dystiolaeth glir a gafwyd o bryderon am ddiogelwch y ddarpariaeth ar benwythnosau yn fater y dylid ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

**Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu datrysiad brys dros dro i ganfyddiad y trigolion lleol am ddiffyg diogelwch y gwasanaeth iechyd ym Mhen Llŷn ar benwythnosau.**

## Disgwyliadau Realistig

15.7 Yn ardal Pentir fe amlygwyd y potensial o greu anawsterau 'lawr y lein' o safbwynt darparu gwasanaethau 'ar lein'. Ni chawsom dystiolaeth glir o hyn yn yr Ymchwiliad yma. Serch hynny, ystyriwn fod hwn yn fater sydd angen ei wyntyllu'n ofalus gan y gallai arwain at oblygiadau difrifol o safbwynt ail-lunio gwasanaethau ar lein ac asesiadau iechyd ar y ffôn ac yn y blaen.

Un o'r prif elfennau positif o'r Ymchwiliad oedd y ffaith bod y rhai a gymerodd rhan yn y grwpiau ffocws yn llwyr ymwybodol o'r angen am newid ac amgynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n amser i weithredu ac i fod yn arloesol.

Un o'r elfennau hanfodol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd amgen yw'r angen i ddefnyddio technoleg a datblygiadau newydd parhaus mewn modd effeithiol. Serch hynny, mae'n hanfodol bod ffydd gan bobl yn y trefniadau newydd a'n bod yn gafael yn y cyfleoedd i wella gwasanaethau drwy eu darparu mewn ffyrdd amgen.

**Ymchwiliwch ymhellach i weld a oes tystiolaeth bod cynnal gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill 'o bell' yn creu problemau iechyd mwy dwys neu anawsterau eraill yn y tymor canolig a hir dymor i ddefnyddwyr gwasanaeth. Os oes tystiolaeth o hyn yn dod i'r amlwg, yna, gwnewch ddarpariaeth briodol i liniaru'r effaith wrth gynllunio'r gwasanaethau.**

## Adeiladu ar Arfer Da

15.8 Nodwyd ar gychwyn yr Adroddiad mai ciplun yn unig sydd yma o sefyllfa mynediad i wasanaethau yng Ngwynedd. Yn anffodus, nid ydym wedi medru rhoi ystyriaeth fanwl i'r ddarpariaeth gyfredol sy'n bodoli ar draws y Sir.

Rydym ar ddeall eich bod yn y broses o fapio'r ddarpariaeth yn gyffredinol gan fentrau cymdeithasol yng Ngwynedd ac y byddwch yn rhoi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio i wella cynaliadwyedd gwasanaethau.

Bydd y gwaith yma'n werthfawr er mwyn gweld beth yw natur, ffurf ac ansawdd y ddarpariaeth gyfredol. Yn hanesyddol, bu Gwynedd yn arloesi gyda rhai elfennau o wasanaethau amgen gan fentrau cymdeithasol drwy gydweithio'n llwyddiannus gyda'r Llywodraeth Ganol. Roedd Cynllun 'Vanguard' ym maes gwasanaethau i bobl gydag anawsterau dysgu yn y ganrif ddiwethaf yn enghraifft dda o hyn.

Mae'r awydd i fod yn fentrus a blaengar yn dal yn amlwg yng nghymunedau Gwynedd.

**Adeiladwch ar y ddarpariaeth graidd sy'n bodoli yng Ngwynedd i wella mynediad i wasanaethau drwy adnabod ac asesu ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan y Trydydd Sector a'r Sector Breifat ar draws y Sir. Cynlluniwch wasanaethau amgen dros gyfnod o dair blynedd neu fwy drwy roi arweiniad a chefnogaeth briodol iddynt.**

# CYDNABYDDIAETH

Dymunwn ddiolch i’r canlynol am roi tystiolaeth, gwybodaeth werthfawr a’u cydweithrediad parod :

Trigolion lleol ardaloedd Llanuwchllyn/Llandderfel, Tregarth, Mynydd Llandegai a Phentir2, Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Llanengan, Llanbedrog ac Abersoch

## Cyngor Gwynedd

Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd
Harry Thomas, Prif Weithredwr
Iwan Wyn Jones, Rheolwr Ymchwil
Siân Wyn Griffiths, Rheolwr Newid
Siôn Gwynfryn Williams, Rheolwr Cyfathrebu
Sioned Morgan, Rheolwr Adfywio a Chymunedau

# Dogfennau Cefndir

Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17
Cynllun Datblygu Gwledig 2007-13
Cynllun Datblygu Gwledig drafft 2014-2020
Ymchwiliadau Joseff Rowntree
Deep Rural Localities, Arsyllfa Gwledig Cymru, Hydref 2009Getting THE Measure OF Rural Deprivation IN Wales – May 2012 – Commissioned BY THE Local Government Data Unit on behalf of WLGA Rural Forum
Rural Health Plan – Improving integrated Service delivery across Wlaes – Llywodraeth Cymru
Wales Transport Strategy (2008)
Fullfilled Lives, Supportive Communities (2007)
Economic Development and the Welsh Language (2006)
Gwneud y Cysylltiadau
National Survey for Wales 2012-13
Improving Rural Services – Service Priority, Accessibility and Quality in Rural Scotland – May 2006 – Scottish Executive
Exclusive Countryside? – Social inclusion and regeneration in rural areas, Mark Shucksmith, Gorffennaf 2000, Joseph Rowntree Foundation
Fresh Fields – Rural social care: Research, policy and practice agendas, Gary Craig and Jill Manthorpe, Joseph Rowwntree Foundation, 2000

# Tîm Ymchwiliad Craffu Agenda Wledig

## Cynghorwyr
Elwyn Edwards (Cadeirydd)
Lesley Day
June Marshall
Gareth Thomas
Eirwyn Williams

## Swyddogion
Gareth James (Swyddog Arweiniol)
Ann Roberts (Swyddog Cefnogi)
Eirian Roberts (Gweinyddydd)
Siôn Owen (Cefnogaeth Weinyddol)

Adroddiadau llawn a Manylion pellach – cysylltwch â:

Siôn Maredudd Owen,
Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu Cynorthwyol,
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Ebost: SionMareduddOwen@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679665

# ATODIAD 1

## LEADER 2014-2020
## MYNEGI DIDDORDEB MEWN FFURFIO GRŴP GWEITHREDU LLEOL

| | |
|---|---|
| **Enw arfaethedig y Grŵp Gweithredu Lleol** | **Grŵp Gweithredu Lleol GWYNEDD** |
| **Enw a chyfeiriad cyswllt** | Cyswllt 1: Dylan Griffiths<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu<br><br>Cyswllt 2: Sioned Morgan,<br>Cydlynydd CDG Gwynedd<br><br>Adran Economi a Chymuned<br>Cyngor Gwynedd, Pencadlys, Stryd y Jêl<br>Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH<br>d/o Partneriaeth Economaidd Gwynedd |
| **Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn** | 01286 679661<br>DylanRhysGriffiths@gwynedd.gov.uk<br>01286 679358 / SionedMorgan@gwynedd.gov.uk |

## Adran 1: Ardal Weithredu / Wardiau Daearyddol

**Yr Ardal Weithredu arfaethedig ar gyfer y Grŵp Gweithredu Lleol:** Gwynedd

Mae'r amlinell ddu ar y map isod yn dangos ffiniau'r ardal arfaethedig yn glir. Fel y dangosir yn y map isod, mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sy'n mesur 2,535 cilometr sgwâr yn nhermau daearyddol. Hon yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n cynrychioli 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.



# ATODIAD 1

Noder bod cyfanswm o 71 ward yn ffurfio ardal/sir Gwynedd. Rhestrir bob ward yn y tabl isod a cheir map o'r wardiau yn Atodiad 1.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Aberdaron | 36 | Llanbedr |
| 2 | Aberdyfi | 37 | Llanbedrog |
| 3 | Abererch | 38 | Llanberis |
| 4 | Abermaw | 39 | Llandderfel |
| 5 | Abersoch | 40 | Llanengan |
| 6 | Arllechwedd | 41 | Llangelynnin |
| 7 | Bala | 42 | Llanllyfni |
| 8 | Bethel | 43 | Llanrug |
| 9 | Bontnewydd | 44 | Llanuwchllyn |
| 10 | Botwnnog | 45 | Llanwnda |
| 11 | Bowydd a Rhiw | 46 | Llanystumdwy |
| 12 | Brithdir & Llanfachraeth / Ganllwyd / Llanelltyd | 47 | *Marchog (Canolfan Gwasanaethau)* |
| 13 | Bryn-crug / Llanfihangel | 48 | *Menai (Bangor) (Canolfan Gwasanaethau)* |
| 14 | Cadnant | 49 | Menai (Caernarfon) |
| 15 | Clynnog | 50 | Morfa Nefyn |
| 16 | Corris / Mawddwy | 51 | Nefyn |
| 17 | Criccieth | 52 | Ogwen |
| 18 | Cwm y Glo | 53 | Peblig |
| 19 | *Deiniol (Canolfan Gwasanaethau)* | 54 | Penisarwaun |
| 20 | Deiniolen | 55 | Penrhyndeudraeth |
| 21 | *Dewi (Canolfan Gwasanaethau)* | 56 | Pentir |
| 22 | Diffwys a Maenofferen | 57 | Penygroes |
| 23 | Dolbenmaen | 58 | Dwyrain Porthmadog |
| 24 | De Dolgellau | 59 | Gorllewin Porthmadog |
| 25 | Gogledd Dolgellau | 60 | Porthmadog – Tremadog |
| 26 | Dyffryn Ardudwy | 61 | Gogledd Pwllheli |
| 27 | Efailnewydd / Buan | 62 | De Pwllheli |
| 28 | *Garth (Canolfan Gwasanaethau)* | 63 | Seiont |
| 29 | Gerlan | 64 | Talysarn |
| 30 | *Glyder (Canolfan Gwasanaethau)* | 65 | Teigl |
| 31 | Groeslon | 66 | Trawsfynydd |
| 32 | Harlech | 67 | Tregarth & Mynydd Llandygai |
| 33 | *Hendre (Canolfan Gwasanaethau)* | 68 | Tudweiliog |
| 34 | *Hirael (Canolfan Gwasanaethau)* | 69 | Tywyn |
| 35 | Llanaelhaearn | 70 | Waunfawr |
| | | 71 | Y Felinheli |

Mae Gwynedd gyfan wedi'i dynodi fel ardal wledig gan Lywodraeth Cymru er diben Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, ac ardaloedd canolog dinas Bangor yn unig sydd wedi'u dynodi fel wardiau gwasanaethau ar gyfer ardal wledig ehangach.

Mae gan y Sir amgylchedd naturiol ac adeiledig arbennig sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth drwy dderbyn llawer o wobrau a dynodiadau rhyngwladol, megis statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Llŷn a statws Parc Cenedlaethol ar draws y rhan fwyaf o'r sir. Mae 67.5% o dir Gwynedd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

# ATODIAD 1

Er ein bod yn cynnig y dylid ystyried Gwynedd gyfan fel ardal gymwys ar gyfer gweithgareddau LEADER yn ystod rhaglen 2014-2020, rhoddir pwyslais arbennig ar weithgareddau sy'n adfywio'r ardaloedd hynny sydd tu allan i'r Canolfannau Gwasanaethau (yn cynnwys Bangor). Mae'r ardal fwy gwledig hon o Wynedd yn nodedig am ei hardal eang o gefn gwlad agored, ei daear fynyddog ac anwastad a'i phentrefi sydd ar wasgar.

**Rhesymeg**

Fel sir wledig gan fwyaf cydnabyddir mai ymarfer academaidd yw ceisio gwahanu materion gwledig oddi wrth y rhai hynny sy'n effeithio ar y sir gyfan. Fel ardal wledig gan fwyaf sy'n parhau i fod yn ddibynnol ar weithgarwch economaidd traddodiadol, mae'r angen i fuddsoddi mewn datblygiadau gwledig yn hollbwysig. Roedd y nifer a gymrodd fantais o'r ddarpariaeth leol yn Amcan 1 yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2006 a'r Rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol (2007-2013), yn dangos ac yn profi bod galw clir am arian lleol, felly rydym yn awyddus i sicrhau bod mwy o arian ar gael yn lleol.

Rydym hefyd yn awyddus i ddatblygu a defnyddio arian LEADER a Strategaeth Datblygu Lleol yn unol â chyfeiriad strategol yr awdurdod lleol yn y blynyddoedd nesaf gan sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yn y dyfodol. Gyda mwy o doriadau yn cael eu gwneud i gyllidebau/gwasanaethau Awdurdod Lleol a ffynonellau ariannu eraill, mae cymunedau gwledig Gwynedd yn wynebu her sylweddol os ydynt am ffynnu a pharhau i ddarparu cartref cynaliadwy ar gyfer busnesau a chymunedau. Ystyrir unrhyw fuddsoddiadau yn y dyfodol fel buddsoddiadau tymor hir i sicrhau ein bod yn datblygu cymunedau gwydn a mentrus yma yng Ngwynedd. Dylai hyn fod yn ddull strategol ac integredig ar draws Gwynedd gyfan ac felly dylai Strategaeth Datblygu Lleol fod yn berthnasol i Wynedd gyfan.

## Adran 2: Poblogaeth (o leiaf 10,000 / uchafswm o 150,000)

**121,874** yw'r ffigwr ar gyfer poblogaeth Gwynedd yn dilyn cyfrifiad 2011.

Cyfanswm poblogaeth y wardiau canolfannau gwasanaeth yw 16,358 (13% o gyfanswm poblogaeth Gwynedd) o gymharu â 105,516 yn y wardiau gwledig (87% o gyfanswm poblogaeth Gwynedd).

## Adran 3: Amcan o'r Themâu y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn bwriadu rhoi sylw iddynt

Bydd y themâu a gaiff eu hystyried gan y Grŵp Gweithredu Lleol a datblygiad y Strategaeth Datblygu Lleol eu hystyried fel rhan o gyd-destun strategol ehangach. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi sefydlu blaenoriaethau strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn barod, gyda blaenoriaethau ar lefel fwy lleol hefyd wedi cael eu hadnabod, drwy broses ymgynghori ac astudiaethau eang, yn natblygiad Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2013-2017. Bydd pwyslais penodol felly yn cael ei roi i sicrhau y bydd unrhyw themâu arfaethedig a datblygiad Strategaeth Datblygu Lleol yn cyd fynd gyda'r blaenoriaethau lleol a rhanbarthol hyn. Yn ychwanegol, bydd sicrhau integreiddio gyda ffynonellau Ewropeaidd eraill yn brif flaenoriaeth i'r Grŵp er mwyn sicrhau y bydd ffynonellau eraill o gymorth ar gael ar gyfer deilliannau'r broses LEADER.

Mae'r pum thema a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn bwysig i Wynedd, felly ar y pwynt hwn yn y broses nid ydym yn dymuno eithrio unrhyw thema. Fodd bynnag rydym yn gwybod gyda'r gostyngiadau ariannol bydd angen cefnogi'r buddsoddiad iawn i sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu delio â'r heriau sydd i ddod yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Cynhaliwyd gweithdy yng Ngwynedd ar 9 Ionawr 2014 gydag aelodau'r Bartneriaeth bresennol a Grŵp Gweithredu Lleol yn ogystal â phartneriaid a budd ddeiliaid allweddol ychwanegol. Nod y gweithdy oedd ennyn arweiniad cychwynnol ar y themâu arfaethedig yr oedd y Grŵp Gweithredu Lleol yng Ngwynedd am ymdrin â hwy gan ddefnyddio arian y LEADER.

Bu i'r gweithdy adnabod y pum thema yn berthnasol ac yn bwysig i Wynedd, gyda diddordeb penodol gan y rhai a fynychodd yn y thema ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol, ac ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol.

Er bod y gweithdy wedi rhoi arweiniad cychwynnol i ni ar y themâu arfaethedig y gallai'r Grŵp Gweithredu Lleol ymdrin â hwy, mae hefyd yn bwysig cofio mai rhan o'r darlun ehangach yw'r gweithdy. Byddai datblygu Strategaeth Datblygu Lleol yn ein galluogi i ymgysylltu ymhellach ac yn fwy eang gyda phartneriaid a budd ddeiliaid allweddol er mwyn cadarnhau'r themâu penodol a'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer yr ardal yn ystod y cyfnod 2014-2020. Dylid nodi hefyd fod gwaith ymgynghorol pellach wedi cael ei wneud wrth baratoi Cynlluniau Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a'r ANHE. Bydd sylw hefyd felly yn cael ei roi i'r themâu a blaenoriaethau sydd wedi cael eu hadnabod fel rhan o'r broses ymgynghori yma wrth ddod i gytundeb ynglŷn â'r themâu terfynol a datblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r posibiliadau ychwanegol y gall amgylchedd naturiol Gwynedd ei gynnig, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol. Yng nghyd destun hyn bydd pwyslais yn cael ei roi ar gydweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol cyfagos er mwyn sicrhau dull cyson a cydlynol.

## Adran 4: Yr anghenion a fydd yn cael blaenoriaeth yn yr ardal (gan gynnwys y nodau a'r amcanion lefel uchel)

Fel y noder uchod mae prif anghenion a blaenoriaethau Gwynedd wedi cael eu hadnabod fel rhan o Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd (2013-2017). Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu hadnabod yn dilyn astudiaethau eang, ymgynghoriad ac asesiad o ddata amrywiol, ble bu i Bartneriaeth Economaidd Gwynedd gymryd rhan yn y broses. Defnyddiwyd y data a'r wybodaeth allweddol fel sail i adnabod blaenoriaethau ar gyfer yr ardal.

Y prif nod, fel y noder yn y Cynllun Strategol (2013-2017) yw **sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd heddiw ac yfory.** Wedi eu rhestru isod mae'r blaenoriaethau a'r amcanion o fewn dau gategori penodol:

**Yr Economi:**
Cryfhau gwytnwch busnesau a chadw'r budd economaidd yn lleol
Gwella ansawdd swyddi a lefelau cyflog
Gwella mynediad at waith ac ymdrin â rhwystrau

**Cymunedau Cryfach:**
Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
Lleihau effaith tlodi ac amddifadedd
Hyrwyddo cymunedau gwledig cynaliadwy
Hyrwyddo balchder a chyfrifoldeb cymunedol

Mae'r uchod yn sicr yn cyd-fynd gydag amcanion ar gyfer sicrhau cynnydd economaidd a lleihau amddifadedd gwledig, sef y prif flaenoriaethau sydd wedi cael eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o weithrediad y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd y gwaith ymchwil a'r ymgynghori a wnaethpwyd wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol yn cael ei ddefnyddio fel sail gadarn ar gyfer Datblygu Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd.

Yn ychwanegol, fel rhan o'r gwaith paratoadol ar gyfer datblygu Strategaeth Datblygu Gwledig Gwynedd, mae adolygiad gwrthrychol o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) Gwynedd mewn cyd-destun economaidd wedi cael ei gwblhau. Fel rhan o'r gweithdy ar y 9fed Ionawr 2014 (cyfeiriwyd ato yn rhan 3 uchod) derbyniwyd adborth cychwynnol ar ddilysrwydd y SWOT, yn ogystal â mynegiant ynglŷn â themâu arfaethedig. Bydd dadansoddiad o'r SWOT hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnwys Strategaeth Datblygu Lleol Gwynedd.

## Adran 5: Partneriaid a Strategaeth Ymgysylltu

<u>Y Strwythur Presennol:</u>
Mae gennym ddau grŵp llywio yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn cydlynu gweithgareddau Echel 3 a 4 o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sef y Bartneriaeth Leol (Partneriaeth Economaidd Gwynedd) a'r Grŵp Gweithredu Lleol (Is-Grŵp Datblygu Gwledig y Bartneriaeth). Wrth gwrs edrychir ar y strwythur hwn eto yn wyneb y ffaith nad oes angen y ddwy rôl yma mwyach yn ystod cyfnod y rhaglen nesaf.

<u>Strwythur Arfaethedig y Dyfodol:-</u>
Felly rydym yn rhagweld y bydd cyfansoddiad ac aelodaeth y ddau grŵp yn cael eu hadolygu er mwyn sefydlu un grŵp llywio. Y grŵp hwn fydd yn cynnig ei hun fel y 'Grŵp Gweithredu Lleol' ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

Unwaith y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfansoddiad a rôl y Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer y rhaglen 2014-2020 wedi ei gadarnhau rydym yn cynnig sefydlu "grŵp cysgodol" o dan nawdd y Bartneriaeth bresennol. Bydd hyn yn sicrhau bod aelodau posib yn rhan o drafodaethau a datblygiadau cychwynnol y rhaglen LEADER, gydag aelodau yn cael eu dewis o'r Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredu Lleol presennol yn ogystal â sicrhau proses agored i benodi aelodau newydd.

Er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru, noder y bydd y Grŵp Gweithredu yn grŵp traws sectorol, agored a chynhwysfawr. Bydd cyfansoddiad y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, cymunedol/gwirfoddol a chyhoeddus. Noder fodd bynnag y bydd y sector gyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn cyfrif fel y canran lleiafrifol yn aelodaeth y grŵp, gyda 51% a mwy o'r aelodau yn dod o'r sectorau preifat a cymunedol/gwirfoddol.

Rydym eisoes wedi cynnal sesiynau gweithdy cyhoeddus gyda'r budd ddeiliaid a'r partneriaid allweddol ar 9 Ionawr 2014 er mwyn derbyn arweiniad cychwynnol ar gyfer yr ymarfer hwn. Rydym yn rhagweld y bydd mwy o ymgynghori cyffredinol a gweithdai yn cael eu cynnal yn ystod 2014 wrth i'r Cynllun

Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020 gael ei gadarnhau. Bydd hwn yn ffurfio rhan o strategaeth ymgysylltu ehangach gydag aelodau o'r Bartneriaeth a'r Grŵp Gweithredu Lleol presennol, budd ddeiliad, partneriaid yn ogystal â sefydliadau eraill o bob lefel. Bydd hyn yn sicrhau mewnbwn pellach yn natblygiadau'r broses ac yn sicrhau fod Strategaeth Datblygu Lleol Gwynedd yn derbyn cefnogaeth eang.

## Adran 6: Amcangyfrif o Gostau Paratoi Strategaeth Datblygu Lleol

Ar hyn o bryd amcangyfrifwn y byddai uchafswm o £50k yn ofynnol ar gyfer costau paratoi i ddatblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol. Byddai'r gwaith yn cynnwys yr hyn a ganlyn: -

- Adeiladu ar gapasiti a rhwydweithio i baratoi'r Strategaeth Datblygu Lleol
- Hyfforddiant ar gyfer budd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol lleol
- Astudiaethau pellach ar gyfer yr ardal (os oes angen gwneud hyn)
- Costau ymgynghoriaeth
- Costau gweinyddol (yn cynnwys cyfieithu a chydlynu'r gwaith)

Yn unol â chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, mae £40k wedi cael ei adnabod tuag at y gwaith hwn drwy Gostau Rhedeg ein Corff Arweiniol ar gyfer Echel 4 o dan y rhaglen bresennol (2007-2013). Byddai angen derbyn cymeradwyaeth ac arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno Ffurflen Newid Prosiect (PAF) er mwyn symud costau rhwng penawdau.

Byddai Cyngor Gwynedd hefyd yn ystyried cyfrannu oddeutu £10k tuag at y costau hyn, unai yn ariannol neu fel 'in kind' (h.y. costau staff). Byddai hyn yn cael ei gytuno a'i gadarnhau petai'r cais yn llwyddiannus yng ngham un o'r broses.

## Adran 7: Amcangyfrif o Gostau Gweithredu Strategaeth Datblygu Lleol

Mae'r egwyddor ynglŷn â sicrhau dull o gydweithio ar gyfer cydlynu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig ar draws Gogledd Cymru wedi cael ei drafod a'i gytuno arno gan Benaethiaid Adrannau Economaidd y chwe Awdurdod Lleol, a hynny gyda nawdd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae bwriad mewn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng:

a. Cynnal a sicrhau fod y broses LEADER yn cael ei harwain a'i gweithredu ar lefel leol dan arweiniad Grwpiau Gweithredu Lleol, drwy Strategaeth Datblygu Lleol, fydd yn adlewyrchu cyfleoedd a blaenoriaethau unigryw pob ardal;
b. Datblygu cyfleoedd er mwyn cydlynu gweithgareddau ble mae diddordeb cyffredin rhwng ardaloedd a chymryd mantais o darbodion maint (economies of scale) er mwyn isafu'r costau gweinyddol sydd ynghlwm a gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Bydd gan bob ardal Grŵp Gweithredu Lleol a Strategaeth Datblygu Lleol fydd yn cyd fynd gyda rheoliadau yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, ond bydd rheolaeth a gweinyddiaeth y rhaglen yn cael eu gwneud gan un corff arweiniol yn gweithredu ar draws mwy nac un ardal. Bydd gweithrediad y rhaglen (h.y. costau animeiddio) yn y lle cyntaf yn digwydd o fewn pob ardal, er mae'n bosib y bydd yn hyfyw i ymgymryd â rhai darnau o'r gweithredu ar draws mwy na un ardal petai themâu neu gymunedau o ddiddordeb yn ymddangos (neu ble mae dynodiadau gofodol traws ffiniol e.e. Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gosodiad daearyddol y dull hwn wedi ei atodi gyda'r ffurflen hon (Atodiad 2).

Y corff arweiniol fydd yn atebol i bob Grŵp Gweithredu Lleol yn unigol, mewn perthynas â gweithredu'r rhaglen ym mhob ardal.

Yng Ngogledd Orllewin Cymru (Gwynedd, Môn a Conwy) mae trafodaethau cychwynnol ynglŷn â gweithredu'r dull uchod wedi cychwyn ymysg y tri Awdurdod Lleol, a Menter Môn, fel y Grŵp Gweithredu Lleol ym Môn. Mae cytundeb mewn egwyddor wedi cael ei roi i'r dull hwn o gydweithio gydag un o'r sefydliadau hyn yn cymryd y rôl fel corff arweiniol

Ar y sail felly y bydd tri Grŵp Gweithredu Lleol a Strategaethau lleol yng ngogledd orllewin Cymru gydag un corff arweiniol (gweinyddiaeth ganolog / rheolaeth a gweithrediad lleol) rydym o'r farn fod y canlynol yn amcangyfrifon cychwynnol teg ar gyfer datblygu Strategaeth Datblygu Lleol:

*Costau Rhedeg* (rheolaeth ar weithredu'r Strategaeth, costau gweithredu, costau hyfforddi, cysylltiadau cyhoeddus, costau ynghlwm a monitro a gwerthuso'r Strategaeth) 10%

*Costau Animeiddio* (rhwydweithio rhwng budd ddeiliad, rhannu gwybodaeth, hyrwyddo'r Strategaeth a chefnogi buddiolwyr arfaethedig i ddatblygu prosiectau a pharatoi ffurflenni cais) 15%

**Noder**: Dylid nodi bod isafbwynt trothwy penodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn ymarferol, yn arbennig yng nghyd destun y costau rhedeg. Petai'r dyraniadau dangosol ar gyfer pob ardal yn isel, byddai cyfran o'r costau sy'n ofynnol ar gyfer rhedeg y rhaglen yn cynyddu; ac i'r gwrthwyneb byddai dyraniad dangosol uwch yn galluogi'r costau rhedeg gael eu cwtogi ymhellach (a'u hail gyfeirio ar gyfer y pwrpas animeiddio), gan nad yw gofynion gweinyddol mewn perthynas â rheolaeth cronfeydd ERDF yn cyfateb yn uniongyrchol i'r arian sydd ar gael.

## Adran 8: Gwybodaeth ychwanegol

Atodiad 1 – Map o wardiau Gwynedd

Atodiad 2 – Gosodiad daearyddol o'r dull gweithredu

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflen hon i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?skip=1&lang=cy

Ar ôl llenwi'r ffurflen hon, dylech ei hanfon yn ôl drwy'r post at yr Uned Rheoli Cynlluniau, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR, neu'n electronig at ruralprogrammes@cymru.gsi.gov.uk, gan wneud hynny **erbyn 31 Ionawr 2014 fan hwyraf**.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **27 MAWRTH, 2014** |
| **TEITL** | **CYDWEITHIO / DYFODOL GWASANAETHAU CYHOEDDUS** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth yr Adran Strategol a Gwella** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **Beth sydd angen ei graffu a pham?** | **Ymateb y Cyngor i adroddiad Comisiwn Williams a'r amserlen weithredu, os yw'n hysbys** |
| **A oes rhywbeth arall sydd angen i'r Pwyllgor Craffu ei wneud?** | **Na – Gan bod angen arweiniad pendant gan Lywodraeth Cymru ar eu hymateb i'r adroddiad** |
| **Beth yw'r camau nesaf?** | **Dim camau penodol** |

1. Mae Adroddiad Williams yn ddogfen o sylwedd gyda'r adroddiad llawn (gydag atodiadau) yn 347 o dudalennau a'r adroddiad cryno yn 106 o dudalennau. Mae'n cynnwys dadansoddiad thematig o'r heriau y mae'r sector gyhoeddus yn ei wynebu o ran delio â gwendidau'r cyfundrefnau presennol a pharodrwydd i wynebu'r hyn a ddaw. Mae'n cynnwys 62 o argymhellion.

2. Mae'r prif ffocws yn y Wasg a'r Cyfryngau wedi bod ar y newidiadau i'r nifer o gynghorau ond mae'r adroddiad ei hun y pwysleisio na ddylid dewis a dethol yr argymhellion. Yn hytrach, dadleuir ei fod yn becyn o argymhellion sydd angen eu gweithredu gyda'u gilydd.

3. Mae yr adroddiad wedi gyfyngu rhyw gymaint gan y maes llafur a roddwyd iddo ond mae'n cynnig dadansoddiad o sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r angen i newid i'r dyfodol, er ei fod yn amlwg yn methu un cyfle amlwg o ystyried integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal. Mae risg y bydd y drafodaeth am uno cynghorau yn golygu bod y negeseuon eraill o bwys sydd yn y ddogfen yn cael eu colli.

4. Mae Atodiad 1, sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn cynnig asesiad bras cychwynol o rai o'r prif negeseuon ac argymhellion yn yr adroddiad fel y gallent effeithio'r Cyngor ac yn awgrymu ymateb posib y gall y Cyngor ei ystyried maes o law os bydd gweithredu ar argymhellion adroddiad y Comisisnwn. Fodd bynnag, sylwadau ar adroddiad y Comnisiwn yw rhain a bydd yn rhai disgwyl rhyw arweiniad o du'r Llywodraeth cyn penderfynu beth sydd angen sylw.

5. Mae dau fater cyffredinol yn codi. Yn gyntaf, a oes yna fentrau o fewn ein cynlluniau gwaith ar lefel strategol neu adrannol yr ydym am eu hatal am y tro gan y byddant, mae’n debyg yn bethau na fyddai yn dwyn ffrwyth tan ar ôl unrhyw ad-drefnu a’u bod felly yn destun trafod a chyd-ddatblygu gyda phratneriaid tebygol er mwyn gosod sylfaen ar gyfer unrhyw gyngor newydd.

6. Yn ail, bydd y cynghorau newydd yn sicr yn wynebu her enfawr. Mae’r newid strwythurol yn cynnig cyfle i wella ond cyfle yn unig. Os na chymerir y cyfle, trwy ddatblygu dulliau newydd o weithio, mae dyfodol y cynghorau newydd yn ddu iawn gyda llai a adnoddau a dirywiad mewn safonau gwasanaeth o berspectif y cwsmer. Mae cyfle hefyd i ddefnyddio'r ad-drefnu fel cyfle gwirioneddol i gynnal “sgwrs fawr” go iawn i ail-ddiffinio rol llywodraeth leol mewn gwasanaethau cyhoeddus.

7. O ran yr amserlen, mae peth ansicrwydd ar hyn o bryd ond mae’n ymddangos ar hyn o bryd mai’r prif ddyddiadau allweddol yw:-

- Pasg 2014 (fan hwyraf) – Targed gwreiddiol Comisiwn Williams i Lywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol a budd-ddeiliaid allweddol gytuno ar raglen uno arfaethedig y Cynghorau, gyda Bwrdd Trawsffurfio a Gweithredu yn cael ei sefydlu i gyd-drefnu’r cyfan
- Haf 2014 – Nod sydd newydd ei gyhoeddi gan y Prif Weinidog ar gyfer cytuno’r map fel bod modd annog uno gwirfoddol cynnar
- Mai 2016 - Etholiadau Nesaf Llywodraeth Cymru – Gan na lwyddwyd i sicrhau consensws gwleidyddol ym Mae Caerdydd i yrru hwn drwodd, mae’n ymddangos, ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i unrhyw gynigion ad-drefnu fod yn rhan o faniffesto pleidiau yn etholiadau’r Cynulliad
- Mai 2017 – Dyddiad tebygol etholiadau nesaf arfaethedig Cynghorau Cymru – cyfle felly i redeg etholiadau ar gyfer unrhyw gyngor cysgodol newydd. Roedd yr etholiadau i fod ym Mai 2016 ond mae gorchymyn wedi ei baratoi yn eu gohirio tan Mai 2017. Fodd bynnag, nid yw’r gorchymyn hynny wedi ei gyhoeddi eto.

8. Hyd yma, er bod sylwadau a thrafodaethau helaeth wedi bod ar y mater, nid oes galw wedi bod ar y Cyngor i fynegi safbwynt. Yn yr ansicrwydd presennol, awgrymaf mai safbwynt y Cyngor yw ei fod yn agored i drafod gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid ynglyn ag ad-drefnu gwasanaethau mewn modd sydd yn cynnig canlyniadau, effeithlonrwydd a gwerth am arian i drigolion.

ATODIAD 1

**1. MAES / THEMA - CYMHLETHDOD**

| DADANSODDIAD WILLIAMS | ARGYMHELLION WILLIAMS | SYLWADAU / YMATEB POSIB |
|---|---|---|
| (i) Mae awgrym o leihau'r toreth o grantiau penodol gan fod y drefn bresennol yn creu "diwylliant grant" negyddol ac yn creu cymhlethdod o ran trefniadau rheoli ariannol sydd heb lawer o werth **(Awgrymir bod hyn yn weithredol erbyn diwedd 2016/17)** | 5. Rhaid i drefniadau ariannu fod yn symlach a chanolbwyntio ar gyflawni canlyniadau. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016-17, rhaid sicrhau bod yr holl grantiau penodol a delir gan Lywodraeth Cymru i gyrff sector cyhoeddus naill ai:<br>• Wedi'u cynnwys mewn arian heb ei neilltuo; neu<br>• Yn ddarostyngedig i amodau llawer cliriach, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan sicrhau y caiff grantiau penodol eu gwario mewn ffordd sy'n cyfrannu at ganlyniadau cenedlaethol neu ganlyniadau lleol; neu<br>• Yn cael eu cadw ar eu ffurf bresennol mewn achosion eithriadol yn unig. (paragraff 2.33) | <u>SYLW</u> – Mae hyn yn sylw y bu Llywodraeth Leol yng Nghymru yn pwyso amdano ers blynyddoedd.<br>Mae'r math hwn o ryddid yn Lloegr wedi galluogi awdurdodau lleol i ddygymod yn haws gyda lefel o arbedion sydd wedi bod yn uwch na'r rhai yng Nghymru.<br>Mae'n biti bod yr adroddiad yn gadael cil y drws yn dal ar agor i rai grantiau penodol ond mae hynny'n annorfod yn sgil natur perthynas llywodraeth genedlaethol a lleol (Mae sylwadau eraill ar hyn o dan yn Rhan 5 am reoli perfformiad ac mewn ymateb i Argymhelliad 54 yn benodol. |
| (ii) Gwneir awgrym y dylai cyrff sydd â ffocws clir ar ddeilliannau yn cael mwy o ymreaoleth dros Grantiau sydd yn dod iddynt **(Awgrymir bod hyn yn weithredol erbyn dechrau 2015/16)** | 6. Erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2015-16, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y gall derbynyddion grantiau penodol gael mwy o ymreolaeth wrth eu defnyddio drwy ddangos eu gallu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol drwy berfformiad cryf. (para 2.34) | <u>SYLW</u> – Mae cryfhau disgyblaeth y Cyngor ar ganolbwyntio ar ddeilliannau i ddinasyddion yn dod yn bwysicach fyth. Mater o farn yw i ba raddau yr ydym wedi llwyddo gyda barn ein harchwilwyr ar hyn yn ffactor |
| (iii) Gwrthodwyd y ddadl dros uno strwythurol rhwng Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Y farn yw bod modd integreiddio heb wneud hynny a bod y datganiadau o fwriad presennol yn gam i'r cyfeiriad iawn | 17. Mae angen cymryd camau brys i sicrhau y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, integredig o ansawdd uchel eu darparu ledled Cymru:<br>• Rhaid i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol baratoi cynlluniau clir a chadarn ar gyfer integreiddio eu gwasanaethau ar unwaith;<br>• Rhaid i'r rhain gynnwys cynigion, cerrig milltir, | <u>SYLW</u> – Mae'r "datganiadau o fwriad" ar gydweithio ac integreiddio yn ysgafn o ran cynlluniau pendant ar hyn o bryd.<br><u>ARGYMHELLIAD</u> – Awgrymir y dylid pwyso am gynlluniau integreiddio penodol. Er mwyn gwneud hynny, gallai hwyluso trafodaethau ymarferol pe byddai'r Byrddau Iechyd yn strwythuro eu trefniadau rheoli i gydnabod ffiniau yr awdurdodau |

| | | |
|---|---|---|
| | targedau a chanlyniadau manwl ar gyfer gwella ac integreiddio'r modd y darperir pob gwasanaeth perthnasol.<br>• Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r modd y cânt eu gweithredu;<br>• Os na chaiff y cynigion hyn eu rhoi ar waith yn dda neu'n ddigon cyflym, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol integreiddio, naill ai gan ddefnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes neu'r rheini sydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, os caiff ei weithredu. (paragraff 2.66) | |
| (iv) Mae cydweithio a gwaith partneriaethol yn anghyson a chymleth fel yr awgrymodd Adroddiad Beecham. Fodd bynnag, nid yw'r anogaeth bresennol i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth wedi dwyn ffrwyth ac mae'r patrwm partneriaethol yn or-gymhleth | 21. Rhaid i strwythurau partneriaeth lleol gael eu symleiddio'n radical a'u gwneud yn fwy effeithiol. Er mwyn gwneud hynny:<br>• Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol sicrhau ei fod yn bodloni ac yn arddel y meini prawf a nodir gennym ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol;<br>• Dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol gynnal un gofrestr o bartneriaethau lleol;<br>• Dylai Byrddau Gwasanaethau Lleol archwilio eu strwythurau partneriaeth lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r meini prawf hynny, ynghyd â'r canlyniadau blaenoriaeth cenedlaethol a lleol cliriach a gynigir gennym hefyd. Dylid dechrau'r gwaith hwn ar unwaith a'i gwblhau o fewn blwyddyn i fynegi'r blaenoriaethau hynny. Dylid dileu partneriaethau nad ydynt yn ychwanegu gwerth, neu sy'n ychwanegu at gymhlethdod;<br>• Rhaid i Gynlluniau Integredig Sengl hefyd | SYLW – Byddai modd adeiladu ar y gwaith y mae'r Cyngor hwn a Chyngor Mon wedi ei wneud trwy'r Prosiect Rhesymoli Partneriaethau er mwyn cadarnhau ffocws i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a chytuno amcanion strategol cytun y mae pawb yn gweithio tuag atynt (DS Mae hyn yn her pan yn delio â chyrff rhanbarthol sydd yn gweithio i amcanion gwahanol) |

| | | |
|---|---|---|
| | adlewyrchu'r canlyniadau hyn a nodi'r prif bwysau ac anawsterau ar draws sectorau y mae angen mynd i'r afael â hwy; rhaid iddynt nodi'n glir y camau sydd angen eu cymryd, gan bwy ac erbyn pryd. (paragraff 2.107) | |
| (iii) Dywedir bod y bartneriaeth "gwasanaethau a rennir"" yn y Gwasanaeth Iechyd wedi bod yn llwyddiant a bod hyn yn fodel ar gyfer amryw o wasanaethau yn cynnwys cyflogaeth ac adnoddau dynol, caffael, cyfreithiol, yswiriant a risg, archwilio ayb **(Awgrymir bod yn rhaid i hyn fod yn ei le erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016/17)** | 22. Gan adeiladu ar gyraeddiadau GIG Cymru, rhaid sefydlu un gweithrediad gwasanaethau a rennir i ddarparu swyddogaethau cefn swyddfa a gwasanaethau cyffredin ar draws y sector cyhoeddus erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016-17. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r gweithrediad hwn a'i oruchwylio. (paragraff 2.116) | SYLW – O ystyried y methiant i wireddu bron unrhyw welliannau "gwasanaethau a rennir" trwy waith cydweithio ar draws y Gogledd, mae'n amheus iawn a wneith lwyddo ar lefel genedlaethol, yn sicr o fewn y math o amserlen a gynnigir Efallai bod cyfle pan ddaw unrhyw ad-drefnu i ystyried cydweithio ar draws awdurdodau eto gan bod y strwythur yn cael ei chwalu a'i ail-greu prun bynnag ond mae'n amheus a yw hyn yn bosib dros bob un o'r gwasanaethau a nodir. |

**2. MAES / THEMA – MAINT A GALLU**

| DADANSODDIAD WILLIAMS | ARGYMHELLION WILLIAMS | SYLWADAU / YMATEB POSIB |
|---|---|---|
| (i) Mae'r dadleuon capasiti ar gyfer yr her sydd yn ein wynebu, cost a gorbenion a phwysigrwydd cynnal ffiniau sydd eisoes yn bod yn dadlau yn gryf i blaid creu sefydliadau mwy trwy uno | 23. Dylai'r 22 o awdurdodau lleol sydd gennym ar hyn o bryd uno i greu unedau mwy. Dylid gwneud hyn drwy uno awdurdodau lleol sy'n bodoli eisoes, nid ail-lunio ffiniau. (paragraff 3.72) | SYLW – Mae dadl a yw rhai o'r unedau newydd y mae'r adroddiad yn eu hawgrymu a awgrymir yn ddigon mawr ac efallai y bydd cynigion diwygiedig yn mynd i'r cyfeiriad hyn. Mae dadl yr adroddiad o weithio o fewn ffiniau sy'n bod yn un pragmataidd yn hytrach na rhesymegol |

**3. MAES / THEMA – LLYWODRAETHU, CRAFFU A DARPARU**

| DADANSODDIAD WILLIAMS | ARGYMHELLION WILLIAMS | SYLWADAU / YMATEB POSIB |
|---|---|---|
| (i) Mae craffu da yn elfen cwbl allweddol o unrhyw drefn llywodraethu. Mae gwaith ar yr hyn sydd yn graffu da wedi bod ar y | 31. Rhaid cydnabod a rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd, statws a gwerth gwaith craffu, a'i gynnal a'i atgyfnerthu'n barhaus. Er mwyn cefnogi | SYLW – Cytuno ond mae problem capasiti (o ran aelodau a swyddogion) yn wynebu pob Cyngor yn arbennig gydag adnoddau yn crebachu. |

| | | |
|---|---|---|
| gweill. OND mae gwendidau sylfaenol yn y trefniadau craffu presennol a rhaid ei ddatblygu | hyn:<br>• Rhaid i bob aelod etholedig, aelod annibynnol o fwrdd iechyd, cyfarwyddwr anweithredol, a swyddog, gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau yng Nghymru.<br>• Rhaid arddel a diogelu annibyniaeth gwaith craffu yn gadarn, yn ogystal â'i natur adeiladol a chadarnhaol;<br>• Yn yr un modd, rhaid i aelodau gweithredol, cyfarwyddwyr anweithredol, a swyddogion, gydnabod gwerth gwaith craffu wrth eu helpu i ddarparu gwasanaethau'n well. Rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i'w penderfyniadau a'u hegluro'n glir, a gwahodd gwaith craffu arnynt, gan gynnwys craffu cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud, mewn modd parod ac agored. Rhaid iddynt hefyd gydnabod ac ymateb i adroddiadau craffu yn brydlon ac yn ddidwyll;<br>• Fel rhan o'r ymdrech i godi statws a phroffil gwaith craffu, ac ymgysylltu â dinasyddion, rhaid sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau gwaith craffu llywodraeth leol yn fwy gweladwy. (paragraff 4.47) | <u>ARGYMHELLIAD</u> - Mae'r gwaith ar nodweddion craffu da a gyflawnwyd yn ddiweddar yng Nghymru yn fan cychwyn ond rhaid symud ymlaen. Awgrymir y dylid cydweithio efallai gyda'r Canolfan Graffu Gyhoeddus i symud ymlaen o'r nodweddion hynny i gynigion ymarferol ar gyfer gwella ansawdd craffu ar lefel cynghorau unigol |
| (ii) Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ac eraill gael cynlluniau clir a phendant am y gwahaniaeth y maent am ei wneud **(Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r model llywodraethu newydd erbyn 2015)** | 36. Rhaid i bartneriaethau lleol a chenedlaethol ddilyn y dull gweithredu hwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad ag aelodau Byrddau Gwasanaethau Lleol, ddiwygio'r Byrddau er mwyn sicrhau'r canlynol:<br>• Bod ganddynt ddiben a gweledigaeth glir, uchelgeisiol ac ymarferol;<br>• Erbyn 2015, bod un model llywodraethu cadarn ar waith sy'n deg ac yn dryloyw ac sy'n | <u>SYLW</u> – Mae cyfle i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Mon fanteisio ar y ffaith ei fod wedi ei resymoli eisoes i symud yn fuan i gytuno gweledigaeth bendant a chlir ar gyfer ei waith gan ddangos yn glir pa wahaniaeth y mae am wneud i ddinasyddion |

| | | |
|---|---|---|
| | sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu penodol, a hawliau a rhwymedigaethau ar y cyd, gan greu atebolrwydd clir am ddarpariaeth;<br>• Bod ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau sylweddol ac ystyrlon a fydd yn cyfrannu at gyflawni eu diben a'u gweledigaeth;<br>• Eu bod yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob sefydliad sydd ag awdurdod a dylanwad perthnasol. (paragraff 4.66) | |

**4. MAES / THEMA – ARWEINYDDIAETH, DIWYLLIANT A GWERTHOEDD**

| DADANSODDIAD WILLIAMS | ARGYMHELLION WILLIAMS | SYLWADAU / YMATEB POSIB |
|---|---|---|
| (i) Mae angen set o werthoedd ar swyddogion y sector gyhoeddus | 50. Rhaid i arweinwyr yn y sector cyhoeddus ddatblygu a chroesawu cyfres o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus a rennir (paragraff 5.94). Er mwyn llywio'r newid hwn:<br>• Rhaid i'r ganolfan arwain a datblygu gwasanaethau cyhoeddus newydd sefydlu prosiect cyfnod cyfyngedig er mwyn hyrwyddo a sefydlu cyfres gyson o werthoedd gwasanaeth cyhoeddus;<br>• Rhaid i'r gwerthoedd hyn gael eu datblygu o fewn dwy flynedd drwy broses gydweithredol ac ystyrlon sy'n cynnwys staff ar bob lefel ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus;<br>• Ar ôl cytuno arnynt, dylai arweinwyr yr holl sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu'r rhain fel y gwerthoedd craidd y caiff unrhyw amrywiadau lleol neu sector-benodol eu hychwanegu atynt; | SYLW – Mae'r syniad o werthoedd cyffredin i'w groesawu a byddai'n dda gweld symudiad cenedlaethol i'r cyfeiriad hyn gyda ffocws tebyg i waith Ffordd Gwynedd y Cyngor yn rhoi dinsyddion yng nghnaol pob dim |

| | | |
|---|---|---|
| | • Rhaid i'r ganolfan ddefnyddio dulliau datblygu sy'n seiliedig ar werthoedd fel egwyddor pob cyfle hyfforddi a datblygu, gan ddangos y gwerthoedd a rennir ym mhob agwedd ar ddysgu. (paragraff 5.96) | |

**5. MAES / THEMA – PERFFORMIAD A RHEOLI PERFFORMIAD**

| DADANSODDIAD WILLIAMS | ARGYMHELLION WILLIAMS | SYLWADAU / YMATEB POSIB |
|---|---|---|
| (i) Mae engreifftiau cadarn o wledydd eraill (ee Seland Newydd) o ffocws clir ar lefelau cenedlaethol a lleol **(Awgrymir bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwell eglurder am hyn erbyn diwedd 2014)** | 54. Erbyn diwedd 2014, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau mwy o eglurder a gwahaniaeth rhwng mesurau, dangosyddion a thargedau gwahanol a ddefnyddir. Ar lefel genedlaethol, dylai trefniadau mesur a rheoli perfformiad ganolbwyntio ar yr hyn sydd angen ei wneud, nid ar y modd y caiff ei wneud. Felly, yn benodol, rhaid i'r diwygiadau hyn wneud y canlynol:<br>• Nodi'n glir y canlyniadau a'r blaenoriaethau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cyflawni;<br>• Creu ffyrdd mwy syml a chyson o fesur perfformiad gwasanaeth islaw hynny, heb ragnodi'r ffordd fwy manwl o fesur materion gweithredol a darparu. (paragraff 6.65) | <u>SYLW</u> – Mae lle i gael patrwm newydd cenedlaethol o fesuryddion perfformiad sydd yn glir a dealladwy ar hyd y llinellau a ganlyn:-<br>a) Nifer bach iawn o fesuryddion wedi eu pennu yn genedlaethol<br>b) Nifer o fesuryddion sydd yn destun trafodaeth a chytundeb rhwng y Cynulliad a'r cynghorau a'u partneriaid<br>c) Nifer o fesuryddion allweddol arall wedi eu cytuno gan gynghorau unigol<br><br>DS Dylai b) ac c) fod yn destun trafodaeth leol gyda dinasyddion |
| (ii) Dylid datblygu cynigion i annog perfformiad ymysg partneriaid lleol | 55. Erbyn diwedd 2014-15, rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chwblhau cytundebau lefel uchel gyda phob bwrdd gwasanaethau lleol gan nodi sut y bydd y bwrdd a'i aelodau yn cyfrannu at ganlyniadau strategol cenedlaethol tra'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol ar yr un pryd. (paragraff 6.80) | <u>ARGYMHELLIAD</u> – Dylid ceisio penderfyniad buan i weld a fydd hyn yn cael ei weithredu neu beidio. Os y bydd, dylid annog y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i edrych ar bennu prif fesuryddion ar gyfer yr ardal fel bod y partneriaid lleol yn barod ar gyfer unrhyw drafodaeth genedlaethol |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 27 Mawrth 2014 |
| **TEITL YR EITEM** | Y Rhaglen Arbedion |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Peredur Jenkins |
| | |

**1. Cefndir a chyd-destun**

1.1 Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rydym yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y pedair blynedd 2014/15 - 2017/18. Gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael bron i £34m o fwlch i'w ddarganfod.

1.2 Atgoffir y Pwyllgor Craffu o'r strategaeth a grybwyllwyd gan y Cabinet i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth oedd yn rhagweld cyfarch y bwlch yma drwy:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr sydd ar ôl |

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer darganfod yr elfen arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw ac yn nodi sail targedau fesul adran yr wyf yn argymell i'r Cabinet ynghyd â'r broses i'w dilyn wedyn.

**2. Sail targedau arbedion**

2.1 Mae gwaith wedi ei gwblhau i adnabod cyfleon potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a rheoli'r galw fesul adran.

2.2 Fe amlinellir canlyniad y gwaith hwnnw yn Atodiad A a bydd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn manylu sut y daethpwyd at y ffigurau yn y cyfarfod.

## 3. Y drefn arfaethedig

3.1 Bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu hwn yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar y 1af o Ebrill cyn iddynt gymeradwyo'r targedau fesul adran.

3.2 Bydd yr adrannau yn cyflwyno eu cynigion erbyn diwedd Mai ac yna bydd cyfle am waith manwl a'u cyflwyno i Weithgor Craffu i herio a chraffu'r cynigion cyn eu cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad.

3.3 I'r perwyl hwn, fe gytunwyd yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24ain o Ionawr i sefydlu gweithgor o'u plith (h.y. y Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio) i gyfarfod yn ôl yr angen.

3.4 Bydd cyfle i holl aelodau'r Cyngor gyflwyno sylwadau a / neu bryderon am y cynigion i'r cadeirydd perthnasol yn ôl y gofyn fel y gellid eu cyflwyno i'r gweithgor. Mae hyn yn caniatáu i'r gweithgor fod yn gynhwysol yn eu rôl gyda'u cyd-aelodau i graffu effaith y cynigion.

3.5 Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw yr ydym yn sôn amdanynt yma fe ddylai'r effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn y byddwn yn ei weld mewn unrhyw gyfundrefn toriadau.

3.6 Bydd y gweithgor yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau gweithredu'r cynigion yn glir ac amlygu unrhyw ystyriaethau sydd angen dwyn i sylw'r Cabinet o ran effaith ar bobl Gwynedd cyn eu cyflwyno am benderfyniad y Cabinet.

3.7 Bydd y gweithgor yn cyfarfod yn ôl y gofyn rhwng Gorffennaf a Hydref 2014.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu sail y targedau a chynnig sylwadau ar y drefn arfaethedig i ddelio â'r cynigion fesul adran cyn i mi eu cyflwyno i'r Cabinet.

**SAIL TARGEDAU ARBEDION 2014 - 2018**

| | Addysg | Adnoddau Dynol | Cyllid | Democratiaeth a Chyfreithiol | Economi a Chymuned | Gofal Cwsmer | Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant | Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion | Tai | Hamdden | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Rheoleiddio | Strategol a Gwella | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Tim Rheoli | Corfforaethol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **1. Man Effeithlonrwydd** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| a) 1% y flwyddyn (3 blynedd o 2015/16) | 284 | 70 | 45 | 61 | 125 | 167 | 386 | 1405 | 72 | 147 | 433 | 252 | 64 | 29 | 48 | 0 | 3588 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **2. Arbedion effeithlonrwydd meysydd penodol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| a) Gwasanaethau Canolog | 0 | 0 | 485 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 40 | 0 | 0 | 0 | 525 |
| b) End to End Gwasanaethau Cymdeithasol | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| - Gwasanaeth Plant[1] | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 965 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 965 |
| c) Adolygiadau Strategol | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| - Hamdden | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Cynnal Ffyrdd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1000 |
| - AAAaCh | 1200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1200 |
| - Datblygu'r Economi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ch) Teleofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 351 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 351 |
| d) Ymchwil arfer da | | | Gweler uchod | | | | | | | | Gweler isod | | | | | | 0 |
| dd) Gwariant Cymharol | 0 | 0 | 0 | 0 | 80 | 0 | 250 | 0 | 79 | 801 | 237 | 463 | 0 | 79 | 0 | 0 | 1989 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **3. Arbedion effeithlonrwydd strategol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| a) Haenau Rheolaethol | 40 | 47 | 98 | 12 | 63 | 96 | 55 | 218 | 16 | 32 | 411 | 88 | 88 | 236 | 0 | 0 | 1500 |
| b) EDRMS[4] | 15 | 15 | 27 | 9 | 22.5 | 28.5 | 30 | 33.3 | 9.1 | 31.1 | 25 | 30 | 22 | 26 | 0 | 0 | 201 |
| c) Ffordd Gwynedd - pobl yn ganolog | 18 | 70 | 129 | 43 | 52 | 157 | 195 | 216 | 40 | 9 | 69 | 182 | 69 | 43 | 68 | 0 | 1160 |
| ch) Caffael[2] | 21.1 | 7.3 | 6 | 11.5 | 18.1 | 23.1 | 3.5 | 10.2 | 4.1 | 67.9 | 383.7 | 13.2 | 5.1 | 4.2 | 4 | 4.4 | 587.4 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **4. Addasiad y Tim Rheoli Corfforaethol** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| - adroddiad y Cabinet 11/03/14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 480 | 0 | 480 |
| - targed o leiaf 15% i'r Gwasanaethau Canolog | 0 | 217 | 0 | 150 | 0 | 104 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 104 | 0 | 0 | 0 | 575 |
| - targed o leiaf 12% i'r holl wasanaethau | 0 | 0 | 0 | 42 | 182 | 144 | 0 | 2375 | 115 | 0 | 0 | 136 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2994 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaeth (heb Rheoli'r Galw)** | **1578** | **426** | **790** | **329** | **543** | **720** | **1885** | **4609** | **335** | **1088** | **2559** | **1164** | **392** | **417** | **600** | **4** | **17115** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Rheoledig Effeithlonrwydd | 9602 | 2843 | 3930 | 2320 | 4524 | 6715 | 14277 | 48365 | 2666 | 4957 | 27719 | 9701 | 2614 | 1278 | 2113 | 0 | 143624 |
| **Sail targed fel % o'r gyllideb** | **16.4%** | **15.0%** | **20.1%** | **14.2%** | **12.0%** | **10.7%** | **13.2%** | **9.5%** | **12.6%** | **21.9%** | **9.2%** | **12.0%** | **15.0%** | **32.6%** | **28.4%** | **0.0%** | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **5. Cynlluniau Rheoli'r Galw[3]** | | 0 | 0 | 0 | 0 | 200 | 1000 | 2195 | 0 | 0 | 1250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4645 |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaeth (gan gynnwys Rheoli'r Galw)** | **1578** | **426** | **790** | **329** | **543** | **920** | **2885** | **6804** | **335** | **1088** | **3809** | **1164** | **392** | **417** | **600** | **4** | **21760** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Rheoledig Effeithlonrwydd | 9602 | 2843 | 3930 | 2320 | 4524 | 6715 | 14277 | 48365 | 2666 | 4957 | 27719 | 9701 | 2614 | 1278 | 2113 | 0 | 143624 |
| **Sail targed fel % o'r gyllideb** | **16.4%** | **15.0%** | **20.1%** | **14.2%** | **12.0%** | **13.7%** | **20.2%** | **14.1%** | **12.6%** | **21.9%** | **13.7%** | **12.0%** | **15.0%** | **32.6%** | **28.4%** | **0.0%** | |

[1] - Potensial arbedion o £2.7m dros 10 mlynedd

[2] - Bydd sail y targed yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf

[3] - Ffigwr i'w gadarnhau

[4] - Ffigwr net o gostau yn cael ei adrodd **ar gyfer y cyfanswm**

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu

## Caffael Cynaliadwy

Fersiwn Derfynol 0.4

Comisiynwyd gan yr Aelod Cabinet – Y Cynghorydd John Wynn Jones

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Cynghorydd Mair Rowlands (Cadeirydd)
Cynghorydd Aled Evans
Cynghorydd Eryl Jones-Williams
Cynghorydd Dafydd Meurig
Cynghorydd Trevor Edwards

**Swyddogion**
Janet Roberts (Swyddog Arweiniol)
Ann Roberts (Swyddog Cefnogi)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

DRAFFT

**Yr Adroddiad**

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyd destun
3 Pwrpas yr Ymchwiliad
4. Prif weithgaredd yr Ymchwiliad
5. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol
6. Canfyddiadau yn unol â Brîff yr Ymchwiliad Craffu
7. Canfyddiadau eraill i sylw'r Aelod Cabinet
8. Materion eraill i sylw'r Aelod Cabinet

**Yr Atodiadau**

Atodiad 1 Mesuryddion perfformiad 2012/13
Atodiad 2a Gwariant o fewn ffiniau'r Sir (Gwariant Lleol) % (10/11)
Atodiad 2b Gwariant gyda busnesau bach a chanolig (%) 2010/11
Atodiad 2c Gwariant o fewn Gogledd Cymru – 2010/11
Atodiad 3 Prif ganfyddiadau o'r Ymchwiliad Craffu a'r prif ganfyddiadau perthnasol o'r Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael Cyngor Gwynedd
Atodiad 4 Darllen pellach

DRAFT

**1. Crynodeb Gweithredol**

1.1 Y mae cyflawni gweithgareddau caffael mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy gan uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau posib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd.

1.2 Adlewyrchir hyn yng Nghynllun Strategol y Cyngor 2013/17. Gweledigaeth y Cyngor yn y maes economi ydy gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol. Un o flaenoriaethau'r maes ydy cryfhau gwytnwch busnesau a chadw'r budd yn lleol. Mae caffael yn faes mae gan y Cyngor ddylanwad drosto ac ar hyn o bryd oddeutu 40% o gaffael y Cyngor sydd o fewn y Sir.

1.3 Comisiynwyd yr Ymchwiliad hwn i edrych yn benodol ar faes caffael cynaliadwy gan yr Aelod Cabinet Economi ac Adfywio a chytunwyd ar friff fyddai'n edrych yn benodol ar addasrwydd polisïau; cydymffurfiaeth â'r polisïau hynny; effaith pecynnu gwaith ar gytundebau dan £50k; ymarfer dda yn y maes.

1.4 Ar sail y canfyddiadau gaiff eu hadrodd yn yr Adroddiad, fe wneir yr argymhellion canlynol:

i. **Dylid cytuno beth yw uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a datblygu polisi a chanllawiau syml a chlir i staff i wireddu hyn ar draws y Cyngor ar sail ymarfer dda**
ii. **Dylid datblygu trefniadau caffael sy'n addas i gyflawni uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a sicrhau ymrwymiad i'r trefniadau hynny ar y lefel uchaf**
iii. **Dylid adeiladu ar yr ymarfer da sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor i adnabod mwy o gyfleoedd cydweithio caffael rhwng gwasanaethau gan uchafu'r buddion posib**
iv. **Dylid sefydlu cofrestr cyflawn o holl gyfleoedd tendro'r Cyngor er mwyn cynnig gwell trosolwg o'r maes**
v. **Dylid datblygu mesuryddion addas ac ystyrlon er mwyn mesur effaith ariannol gwariant y Cyngor a'r effaith ar drigolion Gwynedd**
vi. **Dylid adolygu trefniadau hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â chaffael i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r ymrwymiad, cydymffurfiaeth gweithredol a gwell adnabyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael er budd trigolion Gwynedd**

1.5 Yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad, fe aeth trafodion yr Ymchwiliad yn ehangach wrth i'r aelodau adnabod materion perthynol a oedd, yn eu barn hwy yn allweddol o ran ansawdd caffael yn gyffredinol ond yn dylanwadu ar drefniadau caffael yn gynaliadwy. Cyflwynir felly yr argymhellion ychwanegol isod hefyd i sylw'r Aelod Cabinet er eu bod y tu allan i friff gwreiddiol yr Ymchwiliad.

DRAFT

**vii. Dylid diffinio'n fwy eglur rôl yr Uned Caffael Corfforaethol o fewn trefniadau caffael y Cyngor er mwyn sicrhau y gorau o'r adnodd a chryfhau trefniadau caffael y Cyngor**

**viii. Dylid gwirio ai trefniadau datganoledig cyfredol y Cyngor yw'r trefniadau mwyaf addas i wireddu uchelgais y Cyngor yn y maes**

**ix. Dylid adolygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn trefniadau caffael y Cyngor yng nghyd destun y ddogfen *Gosod contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg* a chynnwys unrhyw argymhellion yn y Strategaeth Caffael a'r Polisi Caffael Cynaliadwy newydd a datblygu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth**

DRAFFT

## 2. Cyd-destun

2.1 Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi Caffael Cynaliadwy yn wreiddiol yn 2006 ac fe adolygwyd y Polisi yn ddiweddarach yn 2011.

2.2 Nod y Polisi ydy

*cyflawni gweithgareddau caffael mewn ffordd cyfrifol a chynaliadwy ac i uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau bosib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir*

2.3 Yn benodol mae'r Polisi yn anelu at:

- Sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyflenwyr priodol i geisio am gytundebau'r Cyngor
- Leihau effaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith
- Sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn cael eu seilio, lle o'n briodol, ar gostau gydol oes

2.4 Wrth edrych ar berfformiad cynghorau yn gyffredinol fe welwyd bod perfformiad Gwynedd yn y maes wedi cynyddu ac yn cymharu'n dda gyda'r mwyafrif o gynghorau Cymru. Ond, ar sail perfformiad gwell cynghorau megis Cyngor Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Cyngor Caerdydd a Chyngor Sir Surrey, mae lle i wella ymhellach.

2.5 Pryder yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y maes yw bod cyfleoedd i gaffael yn gynaliadwy yn cael eu colli a bod gwario diangen yn digwydd os nad yw adrannau'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Polisi.

2.6 Ar sail yr uchod, comisiynwyd ymchwiliad craffu gan yr Aelod i edrych yn benodol ar y maes hwn.

## 3. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

3.1 Wedi derbyn y Comisiwn, cytunodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol y dylai'r Ymchwiliad edrych ar y materion canlynol:

- Addasrwydd y Polisi Caffael Cynaliadwy a'r trefniadau presennol
- Cydymffurfiaeth â'r polisi a'r trefniadau hynny
- Edrych ar yr effaith, o ran pecynnu gwaith, ar gytundebau o dan £50k
- Adnabod ymarfer dda o ran polisi, yn y maes caffael cynaliadwy yn fewnol yn y Cyngor a thu allan i'r Cyngor
- Cynnig argymhellion ar sut i wella perfformiad y Cyngor yn y maes hwn

**4. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad**

4.1 Ymgynghorwyd gyda'r canlynol:

i. Yr Aelod Cabinet ym maes Economi a'r Gymuned
ii. Pennaeth Strategol a Gwella
iii. 2 Reolwr Caffael Corfforaethol
iv. Sampl o 5 swyddog sy'n paratoi tendrau ac edrychwyd ar eu dogfennaeth
v. Cynrychiolydd o gwmni ymgynghorol lleol sy'n paratoi tendrau ar ran y Cyngor
vi. Cyflenwyr lleol naill ai wyneb yn wyneb neu drwy holiadur ar lein
vii. Cydlynydd y Pwyllgor Iaith

4.2 Yn ystod oes yr ymchwiliad, sefydlwyd y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol i wireddu uchelgais Cynllun Strategol y Cyngor ym maes caffael. Pwrpas y Prosiect hwn ydy datblygu trefniadau i dargedu, sbarduno a chefnogi busnesau'r sir fel gallant gystadlu am gytundebau gwariant y Cyngor. Ymgorfforwyd cwestiynau a baratowyd gan y Grŵp Ymchwiliad Craffu ar faes caffael cynaliadwy o fewn trefniadau yr hunan asesu adrannau a gwahoddwyd aelodau i arsylwi'r cyfarfodydd hunan asesu hynny.

4.3 Gwnaed ymchwil ar ymarfer da yn y maes gan edrych hefyd ar berfformiad cynghorau eraill ac fe welir crynodeb o'r gwaith hwnnw yn Atodiadau 2a, 2b, 2c ac Atodiad 4 Darllen pellach.

Yn seiliedig ar ddata 2012/13. mae 40% o wariant Cyngor Gwynedd yn mynd i fusnesau o fewn Gwynedd. Mae hwn yn gynnydd o 3% ers 2010/11 ond yn parhau'n llai na'r 45% o wariant Cyngor Sir Penfro o fewn y sir yn 2010/11. Nid oes ffigyrau ar gyfer 2012/13 eto.

4.4 Ymgynghorwyd yn agos gyda'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y maes, a'r ddau Reolwr Caffael Corfforaethol drwy gydol yr ymchwiliad a gwahoddwyd hwy i nifer o'r cyfarfodydd. Y Rheolwyr Craffu Corfforaethol hefyd gynigiodd arweiniad i'r Grŵp ar y gwahanol bolisïau, trefniadau a rheoliadau yn y maes caffael gan felly hwyluso'r Grŵp i graffu'n annibynnol.

Nodwyd eisoes mai pryder yr Aelod Cabinet am berfformiad y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy oedd y tu cefn i'r ymchwiliad hwn. Fodd bynnag, o fod yn edrych ar y data ac yn derbyn tystiolaeth, aeth trafodion yr Ymchwiliad yn ehangach wrth i'r aelodau adnabod materion perthynol a oedd, yn eu barn hwy, yn allweddol o ran ansawdd caffael yn gyffredinol ac yn dylanwadu ar gaffael yn gynaliadwy.

O ganlyniad, mae canfyddiadau'r Ymchwiliad yn ehangach na'r briff gwreiddiol ac fe'u cyflwynir yma i sylw'r Aelod Cabinet. O ran trefn cyflwynir argymhellion yn erbyn briff yr ymchwiliad craffu ac argymhellion eraill ar wahân i'r Aelod Cabinet.

DRAFT

## 5. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol

5.1 Mae'r Ymchwiliad yn gwerthfawrogi mai mater i'r Aelod Cabinet fydd gweithredu ond mae'n awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet ar ei ymateb i'r argymhellion maes o law.

## 6. Canfyddiadau yn unol â Brîff yr Ymchwiliad Craffu

### 6.1 Addasrwydd y Polisi Caffael Cynaliadwy

**Canfyddiadau**

Mae Strategaeth Gaffael Cyngor Gwynedd 2008 -11 yn nodi'n glir y gofyn ar i wasanaethau ddilyn Polisi a Chanllawiau Caffael Cynaliadwy'r Cyngor er mwyn cefnogi gwasanaethau wrth iddynt ddiffinio a chyflawni gofynion cynaliadwy.

Fe ddaeth yn amlwg yn ystod y trafodaethau bod swyddogion sydd yn caffael o fewn y Cyngor, ar y cyfan, yn cytuno efo amcanion cyffredinol caffael yn gynaliadwy ond bod ymwybyddiaeth a gwybodaeth am bolisïau'r Cyngor yn y maes yn brin ac ymarfer felly yn anghyson ar draws y Cyngor.

Mynegwyd pryder am weithredu polisi caffael yn gynaliadwy o fewn rheoliadau cyffredinol caffael.

Yn ychwanegol at yr uchod, nodir y pwyntiau hyn:

- "Dim yn ymwybodol o'r canllawiau hyn ond yn gwybod am reolau tendro. Mynd ymlaen gyda'r gwaith tendr yn ôl profiad a rheolau tendro"
- Rhai gwasanaethau yn gweld y rheolau yn gaeth a'i bod felly yn anodd rhoi'r polisi mewn lle ac nad yw'n realistig
- Polisi presennol wedi dyddio ers yr adolygiad diwethaf ym 2011 ac ddim yn adlewyrchu'r flaenoriaeth o Gadw'r Budd yn Lleol ac yn cyfeirio at strwythurau ac arferion nad ydynt yn bod mwyach
- Cwestiynwyd eglurder y Polisi mewn mannau a pha mor hygyrch oedd gwybodaeth am y polisi a'r canllawiau. "Wedi edrych ar y Polisi Caffael Cynaliadwy ac wedi cael llawer o wybodaeth o safle we OJEU sydd yn weddol hawdd i fynd ato". "
- Mynegwyd pryder gan yr Aelodau a swyddogion pa mor anodd oedd cael hyd i unrhyw wybodaeth am bolisïau caffael neu'r Uned Gaffael Corfforaethol ar y Fewnrwyd y Cyngor i gynorthwyo swyddogion
- Amlygwyd yr angen i roi mwy o bwyslais o fewn y ddogfen at sut i weithredu'r polisi yn ymarferol i swyddogion megis
  - cynnwys enghreifftiau o eiriau y gellir eu gosod fel cymalau mewn tendr ynghyd ag achosion astudiaeth
  - egluro'n well sut i roi pwysau ar y gwahanol bwysiadau i gael y contract gorau i'r Cyngor

DRAFT

- eglurder ar bwrpas y Rhestrau Gwirio – ai at ddefnydd mewnol o wirio'n unig neu ai fel tystiolaeth o fesur perfformiad

- Aneglurder ar beth yw rôl yr Uned Gaffael Corfforaethol o fewn y canllawiau ymarfer

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- Y Polisi a'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy
- Cyfarfod Swyddogion
- Ymchwil i ymarfer da - "Simple Steps to Environmentally Sustainable Procurement – Putting Policy into Practice" gan CLASP "(Climate Change Local Area Support Programme)"
- Safle we Sell2Wales.
- Cynrychiolydd Cwmni Ymgynghorol

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**

**Dylid cytuno beth yw uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a datblygu polisi a chanllawiau syml a chlir i staff i wireddu hyn ar draws y Cyngor ar sail ymarfer dda**

**6.2 Trefniadau presennol**

**Canfyddiadau**

**Mae trefniadau caffael Cyngor Gwynedd yn ddatganoledig i wasanaethau a threfniadau ac arferion caffael o fewn y gwasanaethau hynny felly'n amrywio'n fawr. Mae capasiti a sgiliau caffael hefyd yn amrywio'n fawr o fewn gwasanaethau ac unedau.**

**Fe adlewyrchir yr un patrwm yn nhrefniadau caffael yn gynaliadwy ar draws y Cyngor ac fel y nodwyd eisoes gyda gwahaniaethau amlwg mewn ymwybyddiaeth a hyder yn y maes hwn o fewn gwasanaethau.**

- Ymwybyddiaeth a defnydd gwasanaethau o'r rhestrau gwirio caffael cynaliadwy i'w cynorthwyo yn amrywio'n fawr iawn
- Gwell ymwybyddiaeth o Reolau Caffael a throthwyon
- Rhai adrannau ac unedau yn ymwybodol o gymalau cymdeithasol a'u defnydd gan eraill e.e. fframweithiau Gogledd Cymru.
- Gwelwyd defnydd llwyddiannus o'r teclyn caffael cynaliadwy ar gyfer contractau mawr.
- "Gweld bod y Rhestr Wirio fawr yn fwy defnyddiol na'r Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy".
- Tystiolaeth bod rhai swyddogion yn gweithio yn ôl profiad a hen arferiad
- Rhai swyddogion yn paratoi tendr yn gyson ond eraill yn llawer llai aml
- Rhai adrannau'r Cyngor yn defnyddio sgiliau mwy arbenigol Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Uned Gaffael Corfforaethol i baratoi tendr.

DRAFT

- Rhai adrannau  eraill yn rhoi'r gwaith o baratoi tendr allan i gwmni ymgynghorol allanol naill ai  oherwydd cymhlethdod y mater a'r arbenigedd oedd ei angen neu oherwydd bod y cwmni yn paratoi'r pecyn tendr i gyd ar eu rhan.
- Cwmni ymgynghorol lleol yn derbyn briff byr iawn ar lafar yn unig ar gyfer paratoi tendr ar ran y Cyngor.  "Cais ar lafar yn unig a gellir rhoi hynny i gyd ar gefn bocs matsis.  Mae angen papur a geiriad penodol ar gyfer Ymgynghorwyr/arbenigwyr fel ni".
- Mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Lleol i lunio Fframweithiau Caffael ac mae'r Adran Eiddo yn y broses o anfon fframweithiau 3 blynedd allan i'r Adrannau ar gyfer gwaith trydan, plymio yn yr ysgolion.  Mae Fframweithiau yn rhestru cwmnïau sydd i'w defnyddio am gyfnod o 3, 5 neu 10 mlynedd ar gyfer gwahanol waith.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog yr Awdurdodau Lleol i ddod at ei gilydd i osod un contract mawr, fel er enghraifft, un cwmni yn cyflenwi cyfrifiaduron i bob awdurdod ar draws Cymru
- Angen mwy o ymchwil ar draws gwasanaethau  i edrych am gyfleodd i becynnu gwaith.
- Awgrym bod y Cyngor yn glynu'n dynnach nag awdurdodau eraill at reolau'r Undeb Ewropeaidd
- Angen hybu ymarfer da fel yr enghraifft o dri cwmni lleol yn dod at ei gilydd i ennill tendr.
- Edrychwyd ar drefniadau caffael mewn ardaloedd eraill.  Mae trefn caffael canolog yng Nghyngor Sir Surrey ac maent yn gwario oddeutu 90% yn lleol.  Mae Cyngor Caerdydd wedi dilyn trefn gaffael ganolog  fel un Cyngor Surrey o weld eu llwyddiant i gadw'r budd yn lleol.    Trefniadau gweddol ganolog sydd gan  Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Gâr gyda  rhai swyddogion  o fewn yr adrannau.

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- Cyfarfod Swyddogion oedd wedi paratoi tendr yn ystod 2012/13
- Cyfarfodydd hunan asesiadau caffael prif adrannau'r Cyngor
- Cynrychiolydd Cwmni ymgynghorol lleol
- Ymchwil

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**

**Dylid datblygu trefniadau  caffael sy'n addas i gyflawni uchelgais y Cyngor  ym maes caffael cynaliadwy a sicrhau ymrwymiad i'r trefniadau hynny ar y lefel uchaf**

**Dylid adeiladu ar yr ymarfer da sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor i adnabod mwy o gyfleoedd cydweithio caffael rhwng gwasanaethau gan uchafu'r buddion posib**

**Dylid sefydlu cofrestr cyflawn o holl gyfleoedd tendro'r Cyngor er mwyn cynnig gwell trosolwg cyflawn o'r maes**

DRAFT

| 6.3 Mesur llwyddiant |
|---|
| **Canfyddiadau**<br><br>**Polisi presennol yn nodi bod yr Uned Caffael Corfforaethol yn casglu data i asesu llwyddiant y polisi ond nid ydyw'n manylu ar y mesuryddion.**<br><br>**Mae cydymffurfiaeth â'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn cael ei fesur ar sail y defnydd o'r Rhestrau Gwirio. Ond, nid yw'n ofynnol i wasanaethau eu hanfon at yr Uned Gaffael Corfforaethol ac o ganlyniad mae tystiolaethu llwyddiant y Polisi felly yn heriol i'r Uned a'r gwaith o gael hyd i'r data yn anodd o ran amser ac ymdrech.**<br>**Nid yw'r mesurydd presennol yn adlewyrchu'n deg cydymffurfiaeth oherwydd yr aneglurder hwn.**<br><br>• Diffyg ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r rhestrau gwirio yn arwain yn anorfod at ddiffyg cydymffurfiaeth yn gyffredinol<br>• Aelodau yn mynegi pryder sut mae'r Cyngor yn mesur cydymffurfiaeth â'r Polisi gan nad oes cofrestr gyflawn ar gael o'r holl gyfleoedd tendro o fewn y Cyngor na gofyn i'r gwasanaethau anfon y rhestrau i'r Uned Gaffael Gorfforaethol. |
| **Ffynhonnell y Dystiolaeth**<br>• **Cyfarfod Swyddogion oedd wedi paratoi tendr yn ystod 2012/13**<br>• **Cyfarfodydd hunan asesiadau caffael prif adrannau'r Cyngor**<br>• **Aelod Cabinet**<br>• **Pennaeth Strategol a Gwella**<br>• **Polisi Caffael Cynaliadwy**<br>• **Mesuryddion Rheoli Perfformiad y Cyngor** |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**<br><br>**Dylid datblygu mesuryddion addas ac ystyrlon er mwyn mesur effaith ariannol gwariant y Cyngor a'r effaith ar drigolion Gwynedd** |

| 6.4 Hyfforddiant Staff |
|---|
| **Canfyddiadau**<br><br>**Mae sgil a hyder staff i weithredu yn y maes caffael cynaliadwy yn amrywio ar sail capasiti, amlder ymarfer, gwybodaeth a sgiliau**<br><br>• Mae'r polisi yn annog staff y Cyngor i ymgymryd â hyfforddiant caffael cynaliadwy ond ni ddarperir hyfforddiant yn fewnol yn y Cyngor |

DRAFT

- Nododd sawl adran ac uned bod angen mwy o arweiniad, hyfforddiant a gwybodaeth arnynt yn y maes penodol hwn
- “y cwrs caffael mewnol ddim digon manwl, yn enwedig i’r math o waith mae’r Adran yn ei wneud”.
- Hyfforddiant caffael wedi ei gynnwys yn matrics hyfforddiant y Cyngor gyda Staff yr Uned Caffael Corfforaethol yn cynnal y sesiynau SEF ‘Prynu a Chontractau Sylfaenol’ a chynhaliwyd peilot o ‘Prynu a Chontractau Uwch’ ym mis Mehefin 2013 sy’n cynnwys cyfeiriad at gaffael yn gynaliadwy.
- Sawl swyddog yn nodi nad oedd wedi cael hyfforddiant diweddar

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- **Cyfarfod Swyddogion oedd wedi paratoi tendr yn ystod 2012/13**
- **Cyfarfodydd hunan asesiadau caffael prif adrannau’r Cyngor**
- **Polisi a’r Canllawiau Caffael Cynaliadwy**
- **Matrics hyfforddiant y Cyngor**
- **Cofrestr hyfforddiant y Cyngor**

**Argymhelliad i’r Aelod Cabinet –**

**Dylid adolygu trefniadau hyfforddiant i staff sy’n ymwneud â chaffael i sicrhau dealltwriaeth lawn o’r ymrwymiad, cydymffurfiaeth gweithredol a gwell adnabyddiaeth o’r cyfleoedd sydd ar gael er budd trigolion Gwynedd**

## 7. Canfyddiadau Eraill i sylw’r Aelod Cabinet

**7.1 Rôl yr Uned Caffael**

**Canfyddiadau**

**Cyfeiriwyd eisoes at drefniadau caffael mewnol y Cyngor a’r drefn ddatganoledig gyfredol a’r amrywiaeth ymarfer yn sgîl hyn.**

**Mae’r Polisi Caffael Cynaliadwy yn cyfeirio droeon at rôl yr Uned Gaffael Corfforaethol yn y maes hwn ac yn gofyn i wasanaethau geisio cyngor gan yr Uned er mwyn “sicrhau nad ydy cyfleoedd yn cael eu methu ac osgoi risg i’r Cyngor wneud camgymeriadau mewn termau ariannol neu niweidio ei enw da.”**

**Mae’r cyngor hwn ar gael o fewn yr Uned gan swyddogion sy’n meddu ar sgiliau arbenigol caffael a phrofiad helaeth yn y maes. Ond anghyson iawn yw defnydd gwasanaethau o’r adnodd hwn ac mae yna aneglurder ar beth yn union yw eu rôl.**

- Trefn o gaffael datganoledig o fewn y Cyngor

DRAFFT

- Rhai gwasanaethau ac unedau yn gweithio'n agos iawn efo'r Uned ac yn elwa o'u harbenigedd yn y maes
- Gwasanaethau eraill yn aneglur beth sydd gan yr Uned i gynnig iddynt hwy
- Yr Uned Caffael Corfforaethol sy'n gyfrifol am gasglu data er mwyn asesu llwyddiant y polisi
- Dim rhestr gyflawn o'r holl gyfleoedd caffael o fewn Gwynedd i hwyluso gwaith yr Uned
- Diffyg ymwybyddiaeth o waith a photensial cyfraniad yr Uned ar draws y Cyngor
- Defnydd anghyson iawn o'r Uned ar draws gwasanaethau a chyfleon yn cael eu colli
- Capasiti a sgil o fewn gwasanaethau i gaffael yn amrywio ac yn fwy bregus mewn rhai mannau o fewn y Cyngor
- "meddwl bod diffyg cymorth cyfreithiol ac yn teimlo bod cynghorau eraill yn cael gwell cymorth caffael".
- "eisiau mwy o gymorth ar y gwaith caffael ac o'r farn buasai'n well pe bai'r gwaith yn cael ei wneud drostynt".
- "Mae cefnogaeth dda i gael gan yr Uned Caffael Corfforaethol".

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- **Cyfarfod Swyddogion oedd wedi paratoi tendr yn ystod 2012/13**
- **Cyfarfodydd hunan asesiadau caffael prif adrannau'r Cyngor.**
- **Aelod Cabinet**

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**

**Dylid diffinio'n fwy eglur rôl yr Uned Caffael Corfforaethol o fewn trefniadau caffael y Cyngor er mwyn sicrhau y gorau o'r adnodd a chryfhau trefniadau caffael y Cyngor**

**Dylid gwirio ai trefniadau datganoledig cyfredol y Cyngor yw'r trefniadau mwyaf addas i wireddu uchelgais y Cyngor yn y maes**

**7.2 Defnydd o'r Gymraeg**

**Canfyddiadau**

Mynegwyd pryder gan aelodau yn ystod yr ymchwiliad am ddefnydd y Gymraeg yn y maes caffael yn gyffredinol a hynny yn bennaf mewn dau faes sef

1 Diffyg sylw i'r Gymraeg yn y Polisi Caffael Cynaliadwy
2 Defnydd o'r Gymraeg yn y maes ee mewn dogfennau tendr sydd ar y safle Sell2Wales i gyd yn uniaith Saesneg.

Fe gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg **Gyngor o dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** yn y maes hwn sef *Gosod Contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg.* Pwrpas yr arweiniad yw cynnig cyngor a chymorth mewn 3 maes sef

- Sut i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ymhob agwedd ar gontractio

DRAFT

gwasanaethau cyhoeddus

- Ehangu'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg
- Arweiniad i sefydliadau sicrhau gwerth am arian wrth gaffael gwasanaeth Cymraeg

**Ffynhonnell y Dystiolaeth**

- **Polisi Caffael Cynaliadwy**
- **Dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg – "Gosod contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg".**
- **Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith, Cydlynydd y Pwyllgor Iaith**

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet**

**Dylid adolygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn trefniadau caffael y Cyngor yng nghyd destun y ddogfen *Gosod contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg* a chynnwys unrhyw argymhellion yn y Strategaeth Caffael a'r Polisi Caffael Cynaliadwy newydd a datblygu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth**

**6.3 Materion eraill i sylw'r Aelod Cabinet**


- Cynnal archwiliad i adnabod os yw'r Cyngor yn cael y gwerth gorau gan gwmnïau ymgynghorol
- Ystyried defnyddio sgiliau'r staff sydd wedi eu cymhwyso i baratoi tendr yn hytrach nag anfon allan at ymgynghorwyr
- Sicrhau bod swyddogion yn paratoi briff comisiynu clir cyn cychwyn ar unrhyw broses caffael
- Sicrhau gwasanaeth cefnogi rhag weithiol ar gyfer cwmnïau bychain drwy adnabod cyfleoedd caffael iddynt ac ymwybyddiaeth o'r polisi

# ATODIAD 1.


**MESURYDDION PERFFORMIAD**
**2012/2013**

| **Cyf:** | **Disgrifiad** | **Targed** | **Perfformiad i fyny at Chwarter 4** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | **Caffael Cynaliadwy** | | | |
| **A Caff02** | % o gytundebau newydd (dros £500k) sydd cyd-fynd a'r Polisi Caffael Cynaliadwy (defnyddio'r Teclyn Caffael Cynaliadwy). | Sefydlu gwaelodlin | 63.6% | 7 allan o 11 wedi ei gwblhau |
| **A Caff03** | % o gytundebau newydd (dros £50k ac o dan £500k sydd cyd-fynd a'r Polisi Caffael Cynaliadwy (defnyddio'r rhestri gwirio caffael cynaliadwy). | Sefydlu gwaelodlin | 13.2% | 87 cytundeb wedi'i gwblhau gyda 34 yn derbyn eithriad tra mae cytundeb fframwaith yn cael ei sefydlu.<br><br>Felly 7 allan o 53 |
| U Caff05 | % o gytundebau newydd sydd wedi defnyddio'r SQuID. | Sefydlu gwaelodlin | 39% | 100 cytundeb perthnasol gyda 34 yn derbyn eithriad tra mae cytundeb fframwaith yn cael ei sefydlu.<br><br>Felly 26 allan o 66 |

# ATODIAD 2a



Gwariant o fewn Ffiniau'r Sir (Gwariant Lleol) % (10/11)
Cyngor
Canran
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
Cyngor 1
Cyngor 2
Cyngor 3
Gwynedd (Apr 10-Mar 11)
Cyngor 4
Cyngor 5
Cyngor 6
Cyngor 7
Cyngor 8
Cyngor 9
Cyngor 10
Cyngor 11
Cyngor 12
Cyngor 13
Cyngor 14
Cyngor 15
Cyngor 16
Cyngor 17
Cyngor 18
Cyngor 19
Cyngor 20
Cyngor 21

**ATODIAD 2b**



Gwariant gyda Busnesau Bach a Chanolig (%) 2010/11
80.0
70.0
60.0
50.0
40.0
30.0
20.0
10.0
0.0
Canran
Cyngor 1
Cyngor 3
Gwynedd (Apr 10-Mar 11)
Cyngor 11
Cyngor 21
Cyngor 10
Cyngor 6
Cyngor 19
Cyngor 15
Cyngor 12
Cyngor 17
Cyngor 7
Cyngor 4
Cyngor 5
Cyngor 9
Cyngor 2
Cyngor 16
Cyngor 14
Cyngor 8
Cyngor 13
Cyngor 20
Cyngor 18
Cyngor

**ATODIAD 2c**



Gwariant o fewn Gogledd Cymru - 2010/11
60
50
40
30
20
10
0
%
55.67
49.6
42.31
41.6
35.1
34.33
Gwynedd
Cyngor A
Cyngor B
Cyngor C
Cyngor CH
Cyngor D
Cyngor

# ATODIAD 3

**Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy – prif ganfyddiadau o'r Ymchwiliad Craffu a'r prif ganfyddiadau perthnasol o'r Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael Cyngor Gwynedd**

Darganfuwyd bod y prif negeseuon o'r cyfweliadau gyda'r pum swyddog gan y grŵp ymchwiliad craffu yn debyg iawn i'r negeseuon yn deillio o'r adolygiad trefniadau a phrosesau caffael y Cyngor.

Darganfuwyd bod nifer o uwch swyddogion y Cyngor wedi mynychu sesiynau hyfforddiant rhwng 2005 a 2011, yn cynnwys Penaethiaid Adran, Rheolwyr ac Arweinwyr Maes a Staff Craidd.

# ATODIAD 3

| Gwasanaethau Cymdeithasol | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Nid oedd yr unigolyn yn gwybod am y Polisi a Chanllawiau Caffael Cynaliadwy, Y Rhestr Wirio na'r Uned Caffael Corfforaethol.<br><br>Nifer o swyddogion o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn hyfforddiant caffael: 14 | Yr Adran yn ymwybodol bod rhai o fframweithiau Gogledd Cymru wedi defnyddio cymalau cymdeithasol yn ei chytundebau.<br><br>Nid oedd yr Adran yn ymwybodol o'r polisi<br><br>Yr Adran angen mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar y ffordd ymlaen. Gofyn a oes hyfforddiant ar gael. |

| Priffyrdd | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Byddir yn defnyddio'r polisi diweddaraf i baratoi tendr.<br><br>Wedi mynychu cwrs 'Prynu a Chontractau' yn 2010.<br><br>Wedi edrych ar y Polisi Caffael Cynaliadwy ac wedi cael llawer o wybodaeth o safle we OJEU sydd yn weddol hawdd i fynd ato.<br><br>Adroddodd y bydd yn defnyddio'r canllawiau a mynd 'trwy'r hoops ' er diogelu ei hun.<br><br>Dim yn gwybod am y Rhestr Wirio.<br><br>Weithiau bydd blwyddyn neu ddwy yn mynd heibio heb baratoi tendr.<br><br>Wedi rhoi'r gwaith allan i ymgynghorwyr oherwydd cymhlethdod ac arbenigedd oedd angen.<br><br>Nifer o swyddogion o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi derbyn hyfforddiant | Tystiolaeth yn bodoli o ddefnyddio teclyn caffael cynaliadwy lle yr oedd modd.<br><br>Yr Adran yn teimlo bod y math o gytundeb sydd ganddynt hwy yn gwneud hi'n anodd cynnwys ffactorau cynaliadwyedd.<br><br>Yr Adran yn adrodd nad oedd y rheolau yn gadael iddynt ystyried cymalau cymdeithasol - dim yn caniatáu gofyn am lechi lleol.<br><br>Yr Adran yn pryderu nad oedd cwmnïau lleol efo polisïau o'r math (cynaliadwyedd) mewn lle ac o'r herwydd yn methu cyfleoedd. Ymhellach i hyn, doedd yr Adran ddim yn meddwl bod digon o drosiant o gontractau'r Cyngor i ddisgwyl cwmnïau lleol gael achrediadau mewn lle.<br><br>Yr Adran yn gweld y rheolau yn gaeth, ac yn sgil yn hoffi codi ei dealltwriaeth i allu bod yn fwy hyblyg. |

| | |
|---|---|
| caffael: 7 | |

| Rheoleiddio | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o’r Adran Rheoleiddio. | Yr Uned yn ymwybodol o’r polisïau ac yn eu defnyddio yn achlysurol.<br><br>Angen arweiniad i flaenoriaethu gwahanol elfen o’r polisi.<br><br>O ran ysbryd mae pawb yn derbyn – ond ddim yn realistig.<br><br>Yr Uned yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant arnynt.<br><br>Adnabod beth sydd yn y polisi ond gweld yn anodd rhoi yn ei le.<br><br>Yr Uned yn cwestiynu beth ydi gwir werth ei ddefnyddio, a’i thicio bocs ydi hyn? |

| Darparu a Hamdden | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o’r Adran Darparu a Hamdden. | Y Canolfannau ddim yn ymwybodol o’r polisi caffael cynaliadwy.<br><br>Credwyd bod safonau diwydiant yn annog defnydd o nwyddau cynaliadwy. Mae pyllau nofio’r Cyngor wedi newid o ddernyddio ‘chlorine’ i asid sydd yn well i’r amgylchedd ac yn rhatach i brynu.<br><br>Mae yna hefyd gynlluniau tebyg wedi bod ar gyfer gwresogydd. Newid o electrig i nwy, serch hyn mae cynnydd i filiau nwy wedi golygu bod yr arbedion gwreiddiol wedi lleihau. |

# ATODIAD 3

| Ymgynghoriaeth Gwynedd | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Cyfwelwyd 2 swyddog o'r Adran Ymgynghoriaeth.<br><br>Diffyg ymwybyddiaeth o'r Polisi Caffael Cynaliadwy a'r Rhestr Wirio.<br><br>Gweithio yn ôl profiad a hen arferiad.<br><br>Paratoi tendr yn aml iawn.<br><br>Mae tîm o swyddogion yn Ymgynghoriaeth Gwynedd yn paratoi tendr dros Adrannau'r Cyngor ac yn ennill ffi am y gwaith.<br><br>Nifer o swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant caffael: 11 | Yr Adran wedi cael profiad o'r teclyn caffael a'r rhestr gwirio.<br><br>Barn bod y teclyn wedi cwestiynu'r angen i gaffael.<br><br>Teimlo bod yr Adran wedi bod yn caffael gyda buddion cymdeithasol yn y gorffennol, ac mai 'branding' newydd ydi 'buddion cymdeithasol'. Hyn yn cael ei wneud trwy'r prif ddangosyddion perfformiad - faint o bobl leol oedd yn cael eu cyflogi, faint sydd yn siarad Cymraeg.<br><br>Arweiniad Gwerth Cymru ar gaffael cynaliadwy wedi bod yn wael a dryslyd.<br><br>Credu bod y trefniadau newydd yn gwneud y caffael o gynlluniau yn fwy agored i sialens, Oherwydd hyn ac i reoli'r risg, mae'r Adran wedi penderfynu yn y dyfodol bydd y 'buddion' yn gorfod bod yn rhan o'r cytundeb a ddim yn cael ei sgorio fel rhan o'r cytundeb. Buasai gwerthuso'r 'buddion' hefyd yn anodd (fel rhan o'r meini prawf). Yr Adran ddim yn gyffyrddus dyfarnu cytundeb ar sail y 'buddion' yma.<br><br>Trafod y term 'whole life costing' – sut mae hyn yn cael ei ddiffinio? Sut mae disgwyl i'r cyngor fesur hwn? Enghraifft adeiladu lon o ansawdd gwell sydd yn para 20 mlynedd yn erbyn un gwael sydd angen ei drwsio pob 5 mlynedd?<br><br>Credwyd bod sgiliau caffael yr Adran |

| | |
|---|---|
| | wedi datblygu o brofiad tendro dros y blynyddoedd.<br><br>Nid yw caffael yn faes/rhan o swydd benodol i neb. Fel rhan o'r swydd mae angen i bawb ymgymryd mewn caffael / comisiynu i gwblhau cymhwyster 'BEng' neu debyg. Mae swyddogion yn mynychu digwyddiadau PASS, cyfarfodydd Construction Excellence ayb i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes caffael. Y ddealltwriaeth fwyaf gan Reolwr yr Uned, Rheolwr Uned Busnes ac Ymgynghorwr Costau Cynorthwyol.<br><br>Nododd y Rheolwr Uned bod y cwrs caffael mewnol ddim digon manwl, yn enwedig i'r math o waith mae'r Adran yn ei wneud. |

| Gofal Cwsmer (Technoleg Gwybodaeth) | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o'r Adran Gofal Cwsmer (Technoleg Gwybodaeth). | Nid yw'r Adran wedi rhoi ystyriaeth i'r polisi.<br><br>Maent yn ymwybodol o enghraifft ble mae buddion cymdeithasol yn bosibl.<br><br>Mae'r Adran yn ystyried cwmnïau lleol fel darparwyr ble yn bosibl.<br><br>Mae rhai swyddogion o fewn yr Uned wedi cael hyfforddiant 3 mlynedd yn ôl. Mae'r Uned yn fwy ymwybodol o gaffael ond ddim yn ystyried ei hunain fel arbenigwyr.<br><br>Nid oes trefniadau yn ei le i hyfforddi a datblygu sgiliau'r rhai sydd yn archebu/tendro ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Uned eisiau mwy o gymorth ar y gwaith caffael ac o'r farn buasai'n well pe bai'r gwaith yn cael ei wneud drostynt.<br><br>Mae'r Uned yn meddwl bod diffyg cymorth cyfreithiol ac yn teimlo bod cynghorau eraill yn cael gwell cymorth caffael. |

| NWTRA | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o NWTRA | Cytunwyd bod yr Adran yn gwneud defnydd o fuddion cymdeithasol ar rhai o'i gytundebau. Er enghraifft, mae NWTRA wedi gwneud defnydd o fuddion cymdeithasol yn ei fframwaith contractwyr.<br><br>Mae NWTRA yn adnabod cyd-destun cyfreithiol caffael ac yn gwneud defnydd o adnoddau o fewn y Cynghorau ar gyfer caffael (Gwynedd yn fwyaf). Doedd yr Adran ddim yn ymwybodol o unrhyw aelod o staff wedi ei gymhwyso ym maes caffael o fewn yr Adran. |

| Uned Hyfforddi, Adnoddau Dynol | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o'r Uned Hyfforddi, Adnoddau Dynol. | Yr Uned yn ymwybodol o'r polisi ac yn cyfeirio ato fo ond ddim yn ddwfn. Tydi'r maes ddim yn galluogi nhw i wneud dylanwad mawr.<br><br>Bydd e-ddysgu yn cymryd lle elfennau o ddysgu wyneb i wyneb.<br><br>Mae'r angen am gyrsiau dwyieithog yn helpu'r Uned sicrhau mai, yn y mwyafrif, darparwyr lleol sydd ganddynt.<br><br>Mae'r Uned o flaen llawer o'r |

| | |
|---|---|
| | Gwasanaethau achos ei chyfraniad yn y cyrsiau caffael. Y cyfraniad yma yn eu helpu hefo dealltwriaeth caffael. |

| Uned Eiddo | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Ni chyfwelwyd swyddog o'r Adran Eiddo. | Gwelwyd 4 swyddog o'r Uned.<br><br>Dim llawer o ymateb ar hyn gan yr Uned.<br><br>Un swyddog yn ymwybodol o'r polisi. Hefyd, natur ei faes ynglŷn â gwella'r amgylchedd ayyb.<br><br>Swyddog arall wedi gweithio hefo'r Uned Caffael ar hyn ar gyfer y fframwaith cynnal a chadw ac wedi cwblhau teclyn caffael cynaliadwy a chytuno cynnwys buddion cymdeithasol yn ddibynnol ar bris / hyd y gwaith penodol.<br><br>Un swyddog wedi mynychu cwrs caffael sylfaenol ond oedd hyn wedi anelu at lefel o staff heb unrhyw ddealltwriaeth o gaffael ac felly ddim yn ddefnyddiol iddo.<br><br>Yr uned yn ymwybodol o'r rheolau a throthwyon y Cyngor. |

| Adran Economi | |
|---|---|
| **Ymchwiliad Craffu** | **Adolygiad Trefniadau a Phrosesau Caffael y Cyngor** |
| Cyfwelwyd un swyddog o'r Adran Economi.<br><br>Mae'r swyddog yn cyd-fynd â'r Polisi a'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy ac yn cwblhau rhestr wirio. | |

| | |
|---|---|
| Mae'r swyddog yn gwneud yn fawr o'r Uned Caffael Corfforaethol.<br><br>Nifer o swyddogion yr Adran Economi sydd wedi derbyn hyfforddiant caffael: 9 | |

# ATODIAD 4.

## DARLLEN PELLACH

1. **Budd i'r Gymuned – Sicrhau Gwerth Gorau am Arian Cymru 2011 (dogfen Llywodraeth Cymru)**. Mae'r Canllaw hwn yn cynnig cyngor ynghylch yr amryw ddulliau y caiff pobl sy'n caffael eu hannog i'w defnyddio er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol trwy gynnwys budd i'r gymuned yn eu gwaith caffael. http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/publications/commbenguide/?lang=cy

2. **CLASP (Climate Change Local Area Support Programme) Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd Lleol** http://www.claspinfo.org/resources

3. **Implementing Sustainable Procurement: Overcoming Common Problems (EPOW, WRAP + Environment Agency) March 2012.** Mae'r ddogfen yn Cynnwys esiamplau sydd yn dangos gwir wahaniaeth yn allbynnau cynaliadwyedd drwy gaffael. http://www.wrapcymru.org.uk/node/16652

4. Llywodraeth Cymru. Adolygiad John F McClelland CBE

5. **Local Procurement – Making the Most of Small Businesses.** Federation of Small Businesses (sefydliad busnes arweiniol y DU) http://www.local.gov.uk/c/document_library/get_file?uuid=d2655dd4-4fa5-4d9b-b2ca-ba6f05ce4270&groupId=10171

6. **SME – Friendly Procurement. "The Can Do toolkit 2"** gan Llywodraeth y Cynulliad, Sir Gâr a nifer eraill. http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/publications/smecando/?skip=1&lang=cy

7. Cyngor Sir Gâr – tudalen gwe allanol yn egluro buddiannau caffael cynaliadwy'n glir , pam a sut a'r gefnogaeth sydd ar gael i gyflenwyr.

8. Cyngor Sir Penfro – Strwythur caffael, 'How to Tender Guide' wedi ei gynhyrchu mewn partneriaeth gan y Cyngor, Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda, Parc Cenedlaethol, Coleg, a Chymdeithas Tai Penfro. Rhestr Contractau a Blaen Raglen Contractau.

9. Gellir gweld nifer o adroddiadau gan awdurdodau lleol ar draws y wlad ar graffu caffael a chaffael cynaliadwy ar safle we CfPS (Centre for Public Scrutiny) http://www.cfps.org.uk/library?filter=procurement+and+commissioning&filterfrom=issue_name&match_all=true

10. **Local Government Group / Built Environment: Procurement, Capital and Shared Assets – Productivity Workstream. Response to Spending Review – Quick Wins Strategy.** Hydref 2010. 10 Gweithred Allweddol – yn cynnwys esiamplau o ymarfer da ar draws y wlad.

http://www.niepbuiltenvironment.org.uk/ThePlaceBasedProductivityWorkstream.html